



Adroddiad a
Chyfrifon Blynyddol
Ffocws ar Deithwyr
2006–07



**Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol Ffocws ar Deithwyr
2006-2007**

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 11 Gorffennaf 2007

Gosodwyd gerbron Senedd yr Alban gan Weinidogion yr Alban

Yn unol â'r gofyniad dan Atodlen 5 Deddf Rheilffyrdd 2005


HC 750
SE/2007/125

Y Gwir Anrh. Douglas Alexander AS
Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth
Yr Adran Drafnidiaeth
Great Minster House
76 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DR

Annwyl Ysgrifennydd Gwladol

Mae'n bleser gennyf amgáu'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol ar gyfer 2006-07 gan y Cyngor Teithwyr Rheilffyrdd (sy'n gweithredu dan enw Ffocws ar Deithwyr), fel y gofynnwyd dan Atodlen 5 Deddf Rheilffyrdd 2005.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Colin Foxall', with a stylized flourish at the end.

Colin Foxall CBE
Cadeirydd

Pwy ydym ni a'r hyn yr ydym yn ei wneud

Ffocws ar Deithwyr¹ yw'r corff gwarchod cenedlaethol annibynnol ar gyfer y rheilffyrdd. Mae'n gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol a noddir gan yr Adran Drafnidiaeth.

Ein cenhadaeth yw sicrhau'r fargen orau i deithwyr rheilffyrdd ym Mhrydain. Mae gennym ddau brif nod; dylanwadu ar benderfyniadau tymor hir a thymor byr fel ei gilydd, a hefyd ar faterion sy'n effeithio ar deithwyr, a helpu trwy gynnig cyngor ac eiriolaeth, a thrwy eu grymuso.

Gan roi pwyslais cryf ar ymgyrchu ar sail tystiolaeth ac ymchwil, rydym yn sicrhau ein bod yn gwybod beth sy'n digwydd ar lawr gwlad. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth sydd gennym i ddylanwadu ar benderfyniadau ar ran teithwyr rheilffyrdd, ac rydym yn gweithio gyda'r diwydiant rheilffyrdd, grwpiau teithwyr eraill a'r Llywodraeth er mwyn gwella safonau teithio.

Ein gweledigaeth yw sicrhau bod y diwydiant rheilffyrdd a'r Llywodraeth bob amser yn

'rhoi'r pwys mwyaf ar deithwyr rheilffyrdd'

Cyflawnir hyn trwy'n cenhadaeth sef

'sicrhau'r fargen orau i deithwyr rheilffyrdd'

¹ Ffocws ar Deithwyr yw enw gweithredu'r Cyngor Teithwyr Rheilffyrdd. Arweiniodd Deddf Rheilffyrdd 2005 at ddileu'r Pwyllgorau Teithwyr Rheilffyrdd rhanbarthol a'r Cyngor Teithwyr Rheilffyrdd cenedlaethol blaenorol, a daeth y CTRh newydd i fodolaeth ar 24 Gorffennaf 2005.

Caiff ein gwaith ei seilio ar y pum amcan canlynol, sy'n sail i'n gweledigaeth a'n cenhadaeth

1. deall anghenion a phrofiadau teithwyr rheilffyrdd
2. sicrhau gwelliannau amlwg a mesuradwy i deithwyr rheilffyrdd
3. grymuso teithwyr rheilffyrdd trwy roi gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth iddynt
4. dylanwadu ar benderfyniadau pwysig ar gyfer y tymor hir, sy'n effeithio ar deithwyr rheilffyrdd
5. bod yn gorff amlwg a hygyrch ac yn gorff y mae budd-ddeiliaid a theithwyr rheilffyrdd yn ei ddeall

Mae'n cynllun corfforaethol yn amlinellu'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud tan 2009 a gellir ei weld trwy droi at ein gwefan sef www.passengerfocus.org.uk neu thrwy ofyn am gopi ohono trwy ddefnyddio'r manylion yng nghefn y ddogfen hon.

Ein gwerthoedd

Er mwyn bod yn ddylanwadol a sicrhau'r fargen orau i deithwyr rheilffyrdd, rhaid i ni weithio mewn ffordd penodol. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn cael ein cydnabod fel corff blaengar, rhagweithiol ac amlwg, ac yn gorff sy'n galluogi, er mwyn dwyn ffrwyth i deithwyr rheilffyrdd.

Dangosir hyn trwy gyfrwng ein gwerthoedd craidd sef

- **annibyniaeth** – byddwn yn ddiuedd, yn wrthrychol ac yn deg wrth gyflawni ein holl weithgareddau
- **bod yn agored** – byddwn yn gorff sy'n hygyrch, sydd ar gael, sy'n dryloyw ac yn gorff y bydd teithwyr rheilffyrdd a budd-ddeiliaid eraill yn gallu troi ato
- **ymddiriedaeth** – er mwyn bod yn ddylanwadol, byddwn yn dangos ein bod yn cael ein parchu, ein bod yn wybodus ac yn gredadwy. Cyflawnir hyn trwy ddefnyddio tystiolaeth ac ymchwil i ddylanwadu ar bolisi
- **ymgysylltu** – er mwyn ymgychu a lloïo dros newidiadau, byddwn yn dangos ein bod yn gwrandao ar deithwyr rheilffyrdd a budd-ddeiliaid eraill, ein bod yn eu deall a'n bod yn ymateb iddynt. Byddwn yn cyflawni hyn trwy gyfrwng y prosiectau ymchwil ac ymgynghori amrywiol y byddwn yn ymgymryd â nhw

Cynnwys

1. Cyflwyniad y Cadeirydd

2. Adolygiad o weithgareddau 2006-7

2.1 Deall anghenion a phrofiadau teithwyr rheilffyrdd

2.2 Sicrhau gwelliannau amlwg a mesuradwy i deithwyr rheilffyrdd

2.3 Grymuso teithwyr trwy roi gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth iddynt

2.4 Dylanwadu ar y penderfyniadau pwysig a wneir ar gyfer y tymor hir, sy'n effeithio ar deithwyr

2.5 Bod yn gorff amlwg a hygyrch ac yn gorff y mae teithwyr yn ei ddeall

3. Atodiadau

3.1 Atodiad un – adroddiad y Prif Weithredwr

3.2 Atodiad dau – bywgraffiadau aelodau bwrdd Ffocws ar Deithwyr

3.3 Atodiad tri – staff

3.4 Atodiad pedwar – rhestr o'r holl gyhoeddiadau, 2006-7

3.5 Atodiad pump – rhestr o'r ymgynghoriadau yr ymatebwyd iddynt, 2006-7

3.6 Atodiad chwech – adroddiad tâl a sylwadau'r rheolwyr

Adroddiad Tâl ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2007

Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

Tystysgrif y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol i'r Senedd

Cyfrif Incwm a Gwariant

Mantolen ar 31 Mawrth 2007

Datganiad Llif Arian

Nodiadau ar y Datganiadau Ariannol

Cyflwyniad y Cadeirydd

Ar ôl cyflawni blwyddyn o waith, mae gennym lawer i adrodd yn ei gylch.

Rydym wedi siarad gyda dros 113,000 o deithwyr. Mae'n rheolwyr cyswllt teithwyr – sy'n cynrychioli buddiannau teithwyr wrth drafod gyda chwmnïau trên, wedi sicrhau dros gant o welliannau i deithwyr wrth iddynt ymateb i faterion a godwyd ar draws Prydain. Mae'r adborth gan waith ymchwil annibynnol ymhlith budd-ddeiliaid ynghylch ein perfformiad yn dangos ein bod wedi llwyddo i ennyn ymddiriedaeth ac enw da am yr hyn yr ydym yn ceisio bod – corff wedi'i seilio ar dystiolaeth, sy'n ymgysylltu â'r diwydiant a'r llywodraeth ynghylch materion yn ymwneud â'r rheilffyrdd. Mae'n gwaith ymchwil a'n cyfraniadau tuag at y strategaethau ar gyfer llwybrau unigol, a'n gwaith ar fanylion masnachfreintiau yn cael ei gydnabod am ddarparu sail sydd lawer yn fwy cadarn na'r hyn a oedd yn bodoli yn flaenorol er mwyn cyfleu safbwyntiau teithwyr yn y gwaith o redeg ein rheilffyrdd.

Ein nod fu gwneud gwahaniaeth – nid i wylltio'n lân ar ran y teithwyr – er ein bod wedi gwneud rhywfaint o hynny hefyd, yn enwedig ynghylch prisiau a gwerth am arian. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi targedu'r materion sydd o'r pwys mwyaf i deithwyr yn ôl ein gwaith ymchwil – gwasanaeth dibynadwy a phrydlon lle mae modd cael sedd am bris fforddiadwy.

Mae'r diwydiant wedi datblygu cryn dipyn dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r perfformiad, sef dibynadwyedd a phrydlondeb y gwasanaeth, yn well nag y mae wedi bod ers nifer o flynyddoedd. O'r diwedd, ceir arwyddion bod strategaeth yn dechrau ymddangos ar gyfer gorsafoedd, er nad yw hyn cyn pryd – yn enwedig ar gyfer rhai o'r rhai llai. Mae cerbydau newydd yn dechrau gwneud argraff ar lefelau bodlonrwydd teithwyr, a cheir addewid bod rhagor ar y ffordd.

Er hyn, mae llawer o le i wella o hyd. Mae gorlenwi yn fater arwyddocaol – ac yn gysylltiedig â hyn, mae prisiau uwch a chostau'r 'rheilffordd cyrraedd a theithio' yn arbennig, yn faterion y mae angen i ni gynrychioli safbwyntiau teithwyr yn eu cylch mewn ffordd gadarn yn y dyfodol. Yn ogystal, mae angen i ni amlygu codiadau annheg a manteisgar i brisiau tocynnau. Er bod y perfformiad yn well, nid yw'r holl gwmnïau trên wedi gwneud yn dda – mae rhywfaint o'r gwasanaeth i deithwyr wedi bod yn ofnadwy eleni ac mae angen i ni gyfleu'r neges na ddylid ailadrodd gwasanaeth mor annerbyniol.

Mae'n Harolwg Teithwyr Cenedlaethol, a fu'n holi barn dros 50,000 o deithwyr ar y rheilffyrdd, wedi sicrhau mwy o gydnabyddiaeth fel meincnod i'r diwydiant. Mae'n dangos bod lefel fodlonrwydd teithwyr gyda phrydlondeb y gwasanaeth yn uchel ar y cyfan, ond mae angen i ni gofio bod rhai trenau sydd rhwng pum a deng munud yn hwyr yn cael eu hystyried fel trenau sy'n cyrraedd mewn pryd – ac mae angen i'r cwmnïau trên a'r llywodraeth ddeall bod disgwyliadau teithwyr yn codi. Os yw'r llywodraeth yn dymuno gweld y symudiad moddol i'r rheilffyrdd fel sy'n cael ei awgrymu yn ei pholisïau amgylcheddol, rhaid sicrhau bod teithio ar y rheilffyrdd yn ddewis mwy deniadol, nid dewis llai deniadol. Rhaid i deithwyr deimlo'u bod yn cael gwerth am arian a'u bod yn gallu cael taith sy'n gyffyrddus. Rydym yn dymuno gweld cytundebau masnachfaint sy'n fwy tryloyw hefyd; gan nodi bwriadau'r gweithredwr a'r llywodraeth ar gyfer gwasanaeth penodol yn eglur. Credwn y byddai hyn er budd teithwyr.

Dros y flwyddyn i ddod, byddwn yn canolbwyntio ar y materion hyn o hyd trwy gyfrwng rhaglenni ymchwil ac ymgyrchoedd wedi'u cynllunio i egluro dymuniadau teithwyr.

Hoffwn ddiolch i'r staff a'r bwrdd am eu gwaith caled a'u hymrwymiad. Mae'n drist cofnodi y bu farw un o aelodau'r bwrdd eleni ar ôl bod yn dioddef o ganser. Roedd Jess Barrow yn aelod gwerthfawr o'n tîm – ac roedd yn bleser treulio amser gyda hi. Rydym yn gweld ei heisiau'n fawr iawn.



Colin Foxall
Cadeirydd

Adolygiad o weithgareddau 2006-7

Amcan Cyntaf y Cynllun Corfforaethol

Deall anghenion a phrofiadau teithwyr rheilffyrdd

Yr hyn y dywedom y byddem yn ei gyflawni

- Cynnal arolwg i gasglu safbwyntiau o leiaf 50,000 o deithwyr trwy gyfrwng yr Arolwg Teithwyr Cenedlaethol
- Cynnal dau brosiect ymchwil arall gyda'r nod o ddeall anghenion teithwyr mewn ardaloedd penodol
- Siarad gydag o leiaf 20,000 o deithwyr eraill trwy gyfrwng gwaith ymchwil, gweithgarwch ymgynghori, cyfarfodydd cyhoeddus a gohebiaeth

Yr hyn a wnaethom:

- Cynnal a chyhoeddi rhifynnau gwanwyn a haf 2007 yr Arolwg Teithwyr Cenedlaethol gan gynnwys dros 50,000 o deithwyr yn y broses
- Cynnal a chyhoeddi 13 o brosiectau ymchwil eraill (gweler atodiad pedwar)
- Siarad gyda 35,000 o deithwyr eraill

Yr hyn y byddwn yn ei wneud yn 2007-08

- Holi o leiaf 50,000 o deithwyr trwy gyfrwng yr Arolwg Teithwyr Cenedlaethol
- Cynnal o leiaf ddeg brosiect ymchwil arall gyda'r nod o ddeall anghenion teithwyr mewn ardaloedd penodol
- Siarad gydag o leiaf 30,000 o deithwyr eraill trwy gyfrwng gwaith ymchwil, gweithgarwch ymgynghori, cyfarfodydd cyhoeddus a gohebiaeth

2.1 Deall anghenion a phrofiadau teithwyr rheilffyrdd

Fel sefydliad wedi'i seilio ar dystiolaeth, rydym yn comisiynu gwaith ymchwil ar deithwyr yn unol â'n cynllun busnes i sicrhau ein bod yn adlewyrchu safbwyntiau teithwyr rheilffyrdd. Mae mwyafrif helaeth y gwaith ymchwil a gynhrychir gennym yn cael ei gyflawni gan gwmnïau ymchwil annibynnol. Am y tro cyntaf eleni, rydym wedi comisiynu gweithgarwch cwsmer cudd ar gyfer agweddau ar wasanaethau rheilffyrdd er mwyn meithrin dealltwriaeth bellach o safbwyntiau teithwyr am eu teithiau. Defnyddir yr holl waith ymchwil a gyflawnir gennym i ddylanwadu ar ein polisiau, ac fe'i rhannir gyda'r diwydiant rheilffyrdd a'r llywodraeth, gyda'r nod o ystyried sut y gall cwmnïau trên ddelio â meysydd sy'n peri problemau. Gellir gweld ein cyhoeddiadau ymchwil trwy droi at ein gwefan sef www.passengerfocus.org.uk

Arolwg Teithwyr Cenedlaethol

Yr Arolwg Teithwyr Cenedlaethol (ATC) yw'r arolwg bodlonrwydd cwsmeriaid mwyaf o'i fath yn Ewrop sy'n delio â theithwyr rheilffyrdd ac sy'n cael ei gyhoeddi. Ers yr hydref 2005, fe'i cynhaliwyd gan y cwmni ymchwil annibynnol Continental Research yn ystod y gwanwyn a'r hydref bob blwyddyn, ar ran Ffocws ar Deithwyr.

Yn yr arolwg a gynhaliwyd yn ystod yr hydref 2006, gwelwyd y ffigur bodlonrwydd cyffredinol uchaf a gofnodwyd erioed: am y tro cyntaf, nododd dros bedwar o bob pum teithiwr (81%) eu bod yn fodlon iawn neu'n gymharol fodlon â'u taith. Gwelwyd y ffigurau uchaf erioed o ran bodlonrwydd gyda phrydlondeb a dibynadwyedd hefyd, wrth i 79% o'r teithwyr nodi eu bod yn fodlon gyda'r agweddau hyn ar eu teithiau. Er gwaethaf y gwelliannau hyn, mae gwerth am arian yn parhau i fod yn fater – dim ond 43% o deithwyr oedd yn fodlon bod eu tocynnau'n cynnig gwerth am arian.

Mae Ffocws ar Deithwyr wedi pennu rhagofalon i sicrhau bod yr arolwg yn wrthrychol ac o ansawdd uchel, gan gynnwys Grŵp Llywodraethu ATC sy'n cynnwys aelodau bwrdd, a grŵp budd-ddeiliaid sy'n cynrychioli defnyddwyr yr arolwg.

Tabl 1: Canran y Teithwyr a Nododd fod Agwedd ar y Gwasanaeth yn Dda neu eu bod yn Fodlon ag ef

	gwanwyn/hydref 2005	gwanwyn/hydref 2006
Maint y sampl	56,360	51,530
Bodlonrwydd cyffredinol	78%	81%
CYFLEUSTERAU MEWN GORSAFOEDD		
Cyfleusterau prynu tocynnau	64%	65%
Darparu gwybodaeth am amserau trenau/platformau	76%	77%
Y gwaith o gynnal a chadw/ trwsio platformau/ adeiladau'r orsaf	61%	62%
Glendid	66%	68%
Y cyfleusterau a'r gwasanaethau	49%	51%
Agweddau'r staff a'r cymorth a roddir ganddynt	68%	68%
Cysylltiadau gyda mathau eraill o drafniadau cyhoeddus	72%	73%
Cyfleusterau parcio	44%	47%
Yr amgylchedd cyffredinol	60%	61%
Eich diogelwch personol wrth ddefnyddio'r cyfleusterau	57%	58%
Argaeledd y staff	56%	56%
Sut y deliwyd â'ch cais i staff yr orsaf	82%	83%
CYFLEUSTERAU AR Y TRENAU		
Amllder y trenau ar y llwybr hwnnw	75%	77%
Prydlondeb/ dibynadwyedd (h.y. y trên yn cyrraedd/ gadael mewn pryd)	76%	79%
Pa mor hir ddylai'r daith ei chymryd yn ôl yr amserlen (cyflymder)	81%	82%
Cysylltiadau gyda gwasanaethau trên eraill	69%	70%
Gwerth am arian pris eich tocyn	43%	42%
Glendid y trên	69%	72%
Safon gwaith cynnal a chadw a thrwsio'r trên	67%	71%
Darparu gwybodaeth yn ystod y daith	61%	64%
Agwedd y staff ar y trên a'r cymorth a roddir ganddynt	59%	64%
Y lle ar gyfer bagiau	47%	49%
Y toiledau	36%	38%
Digon o le i'r holl deithwyr eistedd/sefyll	61%	61%
Pa mor gyfforddus yw'r man eistedd	65%	68%
Pa mor hawdd oedd hi i esgyn/disgyn	75%	76%
Eich diogelwch personol pan oeddech ar y trên	67%	70%
Glendid y tu fewn	68%	71%

Glendid y tu allan	62%	65%
Argaeledd y staff	36%	39%
Pa mor dda y gwnaeth y cwmni trên ddelio ag unrhyw oedi	32%	36%

Mae'r ffigurau mewn inc coch a thrwm yn dangos gwelliant sylweddol o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol (canlyniadau Gwanwyn a Hydref 2005 (cyfunol), o'i gymharu â chanlyniadau gwanwyn a hydref 2006 (cyfunol)).

Tabl 2: Bodlonrwydd cyffredinol (% y teithwyr a oedd yn fodlon 'iawn' neu'n 'gymharol' fodlon)

	gwanwyn 2002	hydref 2002	gwanwyn 2003	hydref 2003	gwanwyn 2004	hydref 2004	gwanwyn 2005	hydref 2005	gwanwyn 2006	hydref 2006
Cymudwyr	62	64	63	64	65	66	68	72	72	74
Teithwyr busnes	74	73	76	73	75	81	79	82	82	85
Teithwyr hamdden	83	83	84	82	82	85	85	88	88	87
Ar y cyfan	72	73	74	73	73	76	77	80	80	81

Tabl 3: Bodlonrwydd gyda gwerth am arian y tocyn (% y teithwyr a oedd yn fodlon 'iawn' neu'n 'gymharol' fodlon)

	gwanwyn 2002	hydref 2002	gwanwyn 2003	hydref 2003	gwanwyn 2004	hydref 2004	gwanwyn 2005	hydref 2005	gwanwyn 2006	hydref 2006
Cymudwyr	27	29	28	28	28	29	27	30	27	29
Teithwyr busnes	40	42	45	43	43	46	43	48	41	45
Teithwyr hamdden	60	60	59	59	59	60	58	61	58	60
Ar y cyfan	42	43	43	43	42	44	41	45	41	43

Tabl 4: Barn gyffredinol am y daith; gwerth am arian y tocyn; y gwaith cynnal a chadw a thrwsio ar y trên (% y teithwyr a oedd yn fodlon 'iawn' neu'n 'gymharol' fodlon)

	gwanwyn 2002	hydref 2002	gwanwyn 2003	hydref 2003	gwanwyn 2004	hydref 2004	gwanwyn 2005	hydref 2005	gwanwyn 2006	hydref 2006
Barn gyffredinol am y daith	72	73	74	73	73	76	77	80	80	81
Gwerth am arian o ran pris eich tocyn	42	43	43	43	42	44	41	45	41	43
Gwaith cynnal a chadw a thrwsio ar y trên	51	51	52	53	53	59	64	71	70	71

Mae Ffocws ar Deithwyr wedi pennu rhagofalon i sicrhau bod yr arolwg yn wrthrychol ac o ansawdd uchel, gan gynnwys Grŵp Llywodraethu NPS sy'n cynnwys aelodau bwrdd, a grŵp budd-ddeiliaid sy'n cynrychioli defnyddwyr yr arolwg.

Rhodddwyd canlyniadau'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol i gwmnïau trên, a aeth ati i'w defnyddio er mwyn eu helpu i ddeall safbwyntiau teithwyr ac i gynllunio gwelliannau yn ôl yr angen. Yn ogystal, rhodddwyd y canfyddiadau i'r tîm rheoli masnachfaint yn yr Adran Drafndiaeth, a fu'n eu defnyddio wrth helpu i reoli'r cytundeb masnachfaint sydd ganddo gyda'r cwmnïau trên. Anfonwyd y canlyniadau at amrywiaeth eang o sefydliadau megis Heddlu Trafnidiaeth Prydain, a ddefnyddiodd y canlyniadau ynghylch diogelwch personol i'w gynorthwyo gyda'i waith. Defnyddiwyd y canlyniadau'n helaeth gan Ffocws ar Deithwyr i ddylanwadu ar bolisi ac wrth wneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau er mwyn gwella'r gwasanaeth.

Annog teithio oriau brig min bore

Yn ystod cyfnodau teithio brig (8am i 9am) yn yr wythnos, mae gorsafoedd rheilffyrdd allweddol Llundain ar gyfer cymudwyr yn dioddef tagfeydd a gorlenwi cynyddol – a disgwylir i'r sefyllfa waethygu. Un dewis ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig er mwyn lleddfu'r tagfeydd yw i geisio annog teithwyr sy'n teithio yn ystod yr oriau brig, i deithio yn ystod yr oriau allfrig.

Ym mis Ebrill 2006, aeth Ffocws ar Deithwyr ati i gomisiynu ymchwil grŵp ffocws ymhlith pum grŵp o gymudwyr a oedd yn cyrraedd gorsaf Waterloo yn ystod yr oriau brig, a oedd wedi nodi y byddai modd iddynt deithio cyn neu ar ôl y cyfnod hwn os byddent yn dymuno gwneud hynny. Roedd canfyddiadau allweddol y gwaith ymchwil yn cynnwys y canlynol:

- roedd rheolaeth y teithwyr dros eu taith yn dibynnu ar nifer o ffactorau – y rhai pwysicaf o'r rhain oedd ymrwymïadau gwaith a'r pellter yr oeddent yn ei deithio i gyrraedd Waterloo
- byddai'n anoddach perswadio'r rhai yr oedd ganddynt deithiau hirach i'w gwneud, i newid eu hymddygiad, na'r rhai yr oedd ganddynt deithiau byrrach i'w gwneud
- ni fydd teithwyr yn newid yr amser y byddant yn teithio os byddant yn teimlo bod gwasanaeth allfrig yn mynd i fod yn annibynadwy
- nid mantais ariannol oedd y cymhelliad cyntaf a nodwyd gan deithwyr fel ffordd o newid eu harferion teithio; fodd bynnag, ar ôl cyfeirio at hyn, fe'i gwelwyd yn datblygu i fod y prif gymhelliad
- roedd strategaethau prisio a oedd yn cosbi'r rhai sy'n teithio yn ystod yr oriau brig, a strategaethau tocynnau a oedd yn eu gorfodi i deithio ar adegau penodol, yn digio teithwyr. Roeddent yn hoffi'r syniad o wobr sy'n cynyddu am deithio yn ystod oriau allfrig, ac y gallai tocynnau fod yn ddigon hyblyg i'w gwobrwyo pan fyddent yn teithio yn ystod oriau allfrig, heb eu cosbi pan na fyddent yn teithio yn ystod oriau allfrig.

Rhannwyd y canfyddiadau gyda Network Rail a chwmnïau trên. Yn ogystal, fe'u cyhoeddwyd yn helaeth er mwyn cynorthwyo amcan polisi Ffocws ar Deithwyr o sicrhau bod teithwyr yn cael eu denu i deithio yn ystod adegau tawelach, yn hytrach na bod yr amser teithio yn pennu'r pris.

Argaeledd seddau cadw ymlaen llaw

Cynhaliwyd archwiliadau o gyfnod Gŵyl y Banc mis Awst a chyfnod y Nadolig 2006 er mwyn pennu pryd y rhyddhawyd seddau cadw i deithwyr ar 39 o deithiau sampl. Yn yr archwiliadau a gynhaliwyd ar gyfer yr haf a'r Nadolig, gwelwyd pob llwybr yn rhyddhau eu seddau cadw o leiaf chwe wythnos cyn y dyddiad teithio, a gwelwyd y rhan fwyaf yn dilyn y canllaw a bennwyd o'u rhyddhau naw wythnos cyn hynny. Mae hyn yn welliant ar y sefyllfa yn ystod y blynyddoedd blaenorol, pan ganfuwyd gennym bod cwmnïau trên yn aml yn methu rhyddhau eu seddau cadw (a'u tocynnau rhatach felly) i deithwyr tan pythefnos cyn y dyddiad teithio.

Dangosodd canlyniadau'r gweithgarwch siopwr cudd hwn fod cwmnïau trên yn bodloni eu gofynion ac felly, nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach. Yn y gorffennol, mae Ffocws ar Deithwyr wedi cyfeirio'r cwmnïau trên hynny nad oeddent yn darparu tocynnau cyn pen y cyfnodau y cytunwyd arnynt, i Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd (ORR) er mwyn amlygu problemau yr oedd angen delio â nhw. Byddwn yn parhau i fonitro'r dyddiadau pan fydd seddau cadw ymlaen llaw yn cael eu rhyddhau.

Gwerthu tocynnau

Yn ystod yr hydref 2006, aeth asiantaeth ymchwil y farchnad annibynnol ati i gynnal gweithgarwch siopwr cudd i ystyried ansawdd y gwasanaeth a ddarparir gan werthwyr tocynnau mewn gorsafoedd, dros y ffôn, ar-lein ac ar drenau.

Roedd y meysydd a nodwyd fel meysydd yr oedd angen eu gwella, fel a ganlyn:

- amseroedd ciwio yn ystod oriau allfrig mewn gorsafoedd mwy
- anallu rhai teithwyr i brynu tocyn ar y trêen ar gyfer teithiau Valley Lines Caerdydd
- amseroedd aros hir wrth ddefnyddio gwasanaethau gwerthu ar y ffôn cwmnïau trêen
- staff yn methu hysbysu teithwyr ynghylch tocynnau uwchraddio Dosbarth Cyntaf Penwythnos a Chrwydro Pob Llinell mewn gorsafoedd a dros y ffôn

Gwelsom fod rhan fwyaf y wybodaeth a roddwyd yn gywir – sy'n neges da i'r diwydiant. Rhannwyd canlyniadau'r gweithgarwch siopwr cudd gyda chwmnïau trêen unigol. Mae nifer ohonynt wedi gofyn am fanylion manwl ynghylch y gweithgarwch "siopa", sydd wedi eu galluogi i nodi'r sefyllfaoedd lle y gwelwyd problemau, a'u deall.

Ail amcan y cynllun corfforaethol

Sicrhau gwelliannau amlwg a mesuradwy i deithwyr rheilffyrdd

Yr hyn y dywedom y byddem yn ei gyflawni

- Sicrhau o leiaf 100 o welliannau mesuradwy i deithwyr

Yr hyn a wnaethom

- Sicrhau 107 o welliannau mesuradwy i deithwyr

Yr hyn y byddwn yn ei wneud yn 2007-8

- Sicrhau o leiaf 105 o welliannau mesuradwy i deithwyr

2.2 Sicrhau gwelliannau amlwg a mesuradwy i deithwyr rheilffyrdd

Mae'n 12 rheolwr cyswllt teithwyr (RhCT) wedi sicrhau nifer o welliannau i deithwyr dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae Rheolwyr Cyswllt Teithwyr wedi'u lleoli ar hyd a lled y wlad. Maent yn cyd-fynd yn agos â chwmnïau trêen (CTau), ond maent yn creu cysylltiadau gyda budd-ddeiliaid hefyd gan gynnwys awdurdodau lleol a gwleidyddion, Network Rail, yr Adran Drafnidiaeth a grwpiau defnyddwyr rheilffyrdd.

Rhaid i'r holl welliannau a gofnodir fod yn benodol ac yn amlwg, a bydd rheolwyr cyswllt teithwyr yn cymryd camau i sicrhau bod yr hyn a gytunwyd yn cael ei gyflawni gan y cwmni perthnasol. Cofnodir pob 'buddugoliaeth' a chânt eu cymeradwyo gan y bwrdd rheoli a'r bwrdd anweithredol.

Isod, ceir rhai enghreifftiau o welliannau go iawn a sicrhawyd i deithwyr:

Prisiau teg

- Roedd First Capital Connect yn bwriadu cyflwyno cynllun digolledu na fyddai'n digolledu teithwyr pan farnwyd bod yr oedi y tu hwnt i'w reolaeth. Ar ôl i Ffocws ar Deithwyr ymyrryd a chynnal trafodaethau, cytunodd y cwmni ddigolledu teithwyr sy'n wynebu oedi o dros 30 munud, beth bynnag fo'r rheswm.

- Roedd strwythur prisiau newydd a gyflwynwyd gan First ScotRail ym mis Mehefin 2006 yn golygu bod y pris i deithwyr a oedd yn teithio o Pitlochry i Perth wedi mwy na dyblu i £12.90 am docyn dychwelyd. Ar ôl i Ffocws ar Deithwyr ymyrryd, cyfyngwyd ar y codiad i £9.90.
- Aeth Ffocws ar Deithwyr ati i gynhyrchu taflen “7 Ways to Save”, i deithwyr a oedd yn teithio ar lwybr West Coast. Dosbarthwyd y daflen mewn gorsafoedd ac fe'i gosodwyd ar ein gwefan. Mae adborth teithwyr yn dangos eu bod yn gwneud arbedion ar ôl dilyn ein cyngor.

Gwybodaeth

- Yn ystod y gwaith a wnaethpwyd i ddiweddarau Gorsaf Liverpool Street yn Llundain, roedd Network Rail yn bwriadu cau'r pwynt gwybodaeth i gwsmeriaid a oedd yn cynnwys staff, gan osod un newydd yn ei le rywbryd yn y dyfodol. Ar ôl i Ffocws ar Deithwyr ymyrryd, cytunwyd peidio cau'r pwynt gwybodaeth a oedd yn cynnwys staff, nes byddai'r un newydd yn barod i agor.
- Cyfeiriodd ein cysylltiadau yn yr Alban at arwyddion anghywir yng Ngorsaf Tain a oedd yn cyfeirio teithwyr i'r platfformau anghywir er mwyn dal trenau i Inverness a Wick. Ar ôl i ni ymyrryd, aeth First ScotRail ati i osod arwyddion newydd a chywir yn eu lle.

Achub ein gwasanaethau

- Gwelwyd nifer o deithwyr yn mynegi pryderon ynghylch y newidiadau a gynlluniwyd i amserlen gwasanaethau First Great Western yn Ne-orllewin Lloegr ym mis Rhagfyr 2006. Ar ôl ymgynghori â budd-ddeiliaid a theithwyr, aeth FGW at i lunio amserlen newydd a oedd yn delio â nifer o bryderon, gan ailgyflwyno gwasanaethau lled-gyflym o Gaerwysg i Lundain, cyflwyno rhagor o wasanaethau cyflym rhwng Llundain a Plymouth a chreu'r gwasanaeth bob hanner awr o Gaerdydd i Lundain.
- Gwelwyd c2c yn gwneud newidiadau mawr i'w amserlen ym mis Rhagfyr 2006. Yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch hyn, aeth Ffocws ar Deithwyr a budd-ddeiliaid eraill ati i fynegi nifer o bryderon. Llwyddwyd i sicrhau ymrwymiad gan c2c y byddai'n adolygu gweithrediad yr amserlen newydd yn ofalus. Yn ystod diwrnodau cyntaf yr amserlen newydd, tarfwyd yn sylweddol ar drefniadau teithwyr a gwelwyd sawl mil yn ymgyrchu yn ei herbyn. Cynhaliwyd cyfarfod rhyngom ni a c2c i drafod y mater ac o ganlyniad, cytunodd y cwmni trên ailgyflwyno'r amserlen flaenorol.

Y daith gyfan

- Penderfynodd Central Trains noddi gwasanaeth bws lleol yn lle'r trên stopio lleol rhwng Stoke a Stafford. Fodd bynnag, nid oedd modd i deithwyr brynu tocynnau tymor na defnyddio cardiau rheilffyrdd ar gyfer gorsafoedd rhyngol ar y bws hwn. Ar ôl i Ffocws ar Deithwyr ymyrryd, cytunodd Central sicrhau bod tocynnau rheilffordd ar gael i'w defnyddio ar y bws. Yn ogystal, cytunodd wella'r wybodaeth i deithwyr am y gwasanaeth ar ffurf amserlenni poded.
- Nododd Ffocws ar Deithwyr fod cysylltiadau gwael rhwng y gwasanaeth trên a'r gwasanaeth fferi yn Oban, gan roi cyn lleied â naw munud i deithwyr gysylltu. Ar ôl cynnal trafodaethau gyda First ScotRail a Caledonian MacBrayne, aethpwyd ati i wella'r amserlen er mwyn rhoi 24 munud i deithwyr wneud eu cysylltiad.

- Dywedodd teithwyr yn Peterborough wrthym bod y llwybr troed i gerddwyr rhwng canol y ddinas a'r orsaf wedi bod mewn cyflwr gwael ers nifer o flynyddoedd. Ar ôl cynnal trafodaethau gyda Network Rail, aeth ati i roi wyneb newydd ar y llwybr cyfan.

Gwasanaeth i bawb

- Nododd Ffocws ar Deithwyr fod teithwyr anabl sy'n ffonio cwmnïau trên i ofyn am gymorth yn talu prisiau galw uchel o ganlyniad i hyd eu galwadau. Ers hyn, mae First Great Western a First ScotRail wedi cytuno darparu rhif rhadffôn 0800 ar gyfer y gwasanaeth archebu i bobl anabl.
- Bu Ffocws ar Deithwyr yn gweithio gyda'r holl gwmnïau trên i archwilio hygyrchedd y ddarpariaeth. Datgelwyd bod First Capital Connect yn ffonio dim ond 30% o'r cwsmeriaid anabl a oedd yn defnyddio'i wasanaethau er mwyn cael eu hadborth. Mae bellach wedi cytuno cysylltu â phawb sy'n gofyn am ei gymorth.
- Fel rhan o'r cynigion i ddiweddarau gorsafoedd Caer a Crewe, bu Ffocws ar Deithwyr yn helpu i sicrhau bod sylw'n cael ei roi i anghenion teithwyr anabl. Aethom ati i gomisiynu archwiliadau hygyrchedd, a oedd yn cynnwys panel o deithwyr profiadol, yr oedd ganddynt anabledau, yn rhoi mewnbwn uniongyrchol ynghylch yr hyn y mae ei angen ar deithwyr.

Yn yr orsaf

- Roedd teithwyr wedi bod yn cwyno am leoliad newydd y cyfleusterau i feiciau yng ngorsaf Leamington Spa. Aethom ati i ystyried y mater, a chytunodd Chiltern symud y rheseli beiciau i leoliad a oedd yn fwy diogel ac yn wedi'i gysgodi'n well.
- Mynegwyd pryderon gan deithwyr ynghylch cyflwr gwael y goleuadau wrth ddynesu at orsaf Morley ger Leeds. O ganlyniad i'n hymyrraeth, cytunodd Network Rail y byddai'n gyfrifol am hyn ac erbyn hyn, mae'r llwybr wedi'i oleuo'n dda.

Am restr lawn o'r cyflawniadau a sicrhawyd ar gyfer teithwyr, trowch at www.passengerfocus.org.uk

Trydydd amcan y cynllun corfforaethol

Grymuso teithwyr trwy roi gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth iddynt

Yr hyn y dywedom y byddem yn ei gyflawni

- Sicrhau lefel fodlonrwydd o 65% ymhlith teithwyr ynghylch y ffordd yr ydym yn delio â'u cwynion

Yr hyn a wnaethom

- Roedd 66% o'r teithwyr yn fodlon â'r ffordd y deliwyd â'u cwynion


Yr hyn y byddwn yn ei wneud yn 2007-8

- Cynnal lefel fodlonrwydd o 65% ymhlith teithwyr ynghylch y ffordd yr ydym yn delio â chwynion

2.3 Grymuso teithwyr trwy roi gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth iddynt

Mae Ffocws ar Deithwyr yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth diduedd ac am ddim i deithwyr er mwyn eu helpu i sicrhau'r fargen orau o ran teithio ar drenau. Yn ogystal, byddwn yn trafod gyda chwmnïau rheilffyrdd pan na fydd teithiwr yn fodlon â'r ffordd y mae cwmni rheilffordd wedi ymateb i'w cwyn. Byddwn yn dadansoddi'r mathau o broblemau y bydd pobl yn cysylltu â ni yn eu cylch er mwyn gwella'n dealltwriaeth o bryderon cyffredinol teithwyr. Gwelwyd 27,755 o deithwyr yn cysylltu â Ffocws ar Deithwyr yn ystod 2006-07 – cynnydd o 20% o'i gymharu â'r nifer a gysylltodd â ni y llynedd.

Sut y cysylltodd teithwyr â ni



Cwynion a wnaethpwyd i Ffocws ar Deithwyr

Rydym yn ceisio helpu pob teithiwr sy'n cysylltu â ni, ond dim ond ar ôl i ddarparwr y gwasanaeth rheilffyrdd gael y cyfle i ddatrys y mater y bydd modd i ni ymwneud â'r broses gwyno.

Bu Ffocws ar Deithwyr yn delio â 2,340 o gwynion apêl yn ystod 2006-07, cynnydd o 4% o'i gymharu â'r nifer yn 2005-06.

Cwynion apêl yn ôl darparwyr/gweithredwyr trenau

Darparwr y Gwasanaeth	2006/7	2005/6
Trenau Arriva Cymru	84	127
c2c	30	20
Central Trains	132	184
Chiltern Railways	22	23
First Capital Connect**	88	0
First Great Western	388	230
First Scotrail	120	99
First Transpennine Express	67	89
Great North Eastern Railway	221	282
Heathrow Express	0	1
Hull Trains	6	2
Merseyrail	12	20
Midland Mainline	64	72
Northern Rail	132	179
One	83	154
Serco Metrolink	1	4
Silverlink	14	19
South West Trains	130	125
Southeastern	128	120
Southern Trains	71	83


Virgin CrossCountry	241	146
Virgin West Coast	55	138
Darparwyr gwybodaeth/gwefannau/gwasanaethau gwerthu dros y ffôn	137	106
Network Rail	13	12
Central Parking UK Ltd	49	39
Eraill	52	180
Cyfanswm	2340	2444

** Cychwynnodd masnachfaint First Capital Connect ar 1 Ebrill 2006.

London TravelWatch yw chwaer-sefydliad Ffocws ar Deithwyr ac mae'n cyflawni'r un rôl yn ardal Llundain. Ni chynhwysir ystadegau London TravelWatch yn yr adroddiad hwn.

Mathau o gwynion a gafwyd

Eleni, roedd mwyafrif y cwynion apêl a gawsom yn ymwneud â phrisiau a thocynnau, ac mewn 24% o'r achosion hyn, roedd teithwyr yn gwrthwynebu'r gost neu'r codiad mewn prisiau.




Mae'r cyfanswm yn uwch na nifer y cwynion a gafwyd gan bod rhai cwynion yn delio â mwy nag un mater.

Bodlonrwydd teithwyr

Mae Ffocws ar Deithwyr yn cynnal arolwg ymhlith teithwyr sydd wedi cyfleu eu cwynion i ni, er mwyn i ni allu asesu pa mor dda yr ydym yn delio â chwynion. Yn ystod y flwyddyn, aethom ati i wella'n gweithdrefnau delio â chwynion, ac arweiniodd hyn at welliant mewn lefelau bodlonrwydd o'i gymharu â'r sefyllfa y llynedd.

Bodlonrwydd wrth gysylltu â Ffocws ar Deithwyr (% y bobl a oedd yn 'fodlon' ac yn 'fodlon iawn')



Mae'n naturiol bod lefelau bodlonrwydd teithwyr yn cael eu dylanwadu'n fawr gan ganlyniad y gŵyn. Yn aml, bydd hyn y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y tîm sy'n delio â'r gŵyn – er y gallwn drafod y mater gyda'r cwmni rheilffordd y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef, ni allwn orfodi'r cwmni i ddatrys cwyn mewn ffordd benodol oni bai ei fod wedi torri ei ymrwymadau statudol.

O ganlyniad i hyn, rydym yn gofyn i deithwyr ddiystyru canlyniad eu cwyn, gan ddweud wrthym pa mor fodlon yr oeddent â'r ffordd y deliwyd â'u cwyn. Dywedodd 66% eu bod yn fodlon â'r ffordd y deliwyd â'u cwyn, gan ragori ar ein targed o 65%, a chan wella'r ffigwr a welwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol gymaint ag 11%.

2.4 Dylanwadu ar y penderfyniadau pwysig a wneir ar gyfer y tymor hir, sy'n effeithio ar deithwyr

Pedwerydd amcan y cynllun corfforaethol

Dylanwadu ar y penderfyniadau pwysig a wneir ar gyfer y tymor hir, sy'n effeithio ar deithwyr

Yr hyn y dywedom y byddem yn ei gyflawni

- Meincnodi safbwyntiau budd-ddeiliaid ynghylch dylanwad Ffocws ar Deithwyr

Yr hyn a wnaethom

- Cynhaliwyd arolwg meincnodi ym mis Tachwedd 2006.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud yn 2007-8

- Sicrhau 'safbwynt gwell ynghylch dylanwad' gan fudd-ddeiliaid pan gynhelir arolwg meincnodi eto yn ystod y gwanwyn 2008

Ym mis Tachwedd 2006, cynhaliodd Opinion Leader Research, cwmni ymchwil annibynnol, 28 cyfweid gyda'n budd-ddeiliaid allweddol – cwmnïau trên, rheolyddion rheilffyrdd, cyrff isadeiledd rheilffyrdd, heddlu trafniadaeth, gweision sifil ac Aelodau Seneddol er mwyn cael gwybod eu safbwyntiau ynghylch rôl ac effeithiolrwydd Ffocws ar Deithwyr. Canfu'r gwaith ymchwil bod Ffocws ar Deithwyr wedi sicrhau gwelliannau mawr wrth greu enw da iddo'i hun fel corff i deithwyr sy'n hygred, sy'n ddefnyddiol, sy'n deg ac sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth. Mae'n budd-ddeiliaid yn tybio ei bod yn werth clywed yr hyn sydd gan Ffocws ar Deithwyr i'w ddweud a'i fod yn adnodd defnyddiol iddynt.

Nododd y gwaith ymchwil bod cwmpas i ddatblygu perthnasoedd strategol cryfach ar lefel ranbarthol. Yn ogystal, nododd y budd-ddeiliaid y gallai Ffocws ar Deithwyr wneud mwy i gyfleu sut y bydd yn dylanwadu ar benderfyniadau polisi ar gyfer y tymor hir.

Prisiau

Mae prisiau yn parhau i fod yn faes pwysig sy'n peri pryder i deithwyr, a dyma fu prif elfen ein gwaith dros y flwyddyn.

Ar ddechrau'r flwyddyn, cynhaliodd Ffocws ar Deithwyr gynhadledd fawr ynghylch prisiau. Defnyddiwyd y gynhadledd i lansio cam cyntaf ein gwaith ymchwil ymhlith teithwyr a fyddai'n ystyried prisiau a thocynnau. Dilynwyd hwn gan waith ymchwil meintiol a mwy a oedd yn ystyried gofynion teithwyr. Roedd y canfyddiadau'n cynnwys:

- dywedodd saith o bob deg teithiwr hamdden wrthym eu bod wedi penderfynu peidio teithio ar y trên oherwydd pris y tocyn, ac roedd 44% o'r rheiny wedi dewis teithio mewn car yn lle trên
- nid oedd cyfanswm sylweddol o'r teithwyr rheolaidd yn prynu tocynnau tymor gan nad oeddent yn gallu fforddio talu amdanynt ymlaen llaw, neu oherwydd bod eu patrymau

teithio yn afreolaidd; nid oedd dau o bob pump o'r cymudwyr a holwyd yn ymwybodol o'r manteision sydd ar gael i ddeiliaid tocynnau tymor.

Cadarnhaodd y gwaith ymchwil bod y strwythur prisiau presennol ar gyfer y rheilffyrdd yn cael ei ystyried yn strwythur cymhleth a dyrys, (yn enwedig ar gyfer teithiau hwy), gan ategu'r angen am strwythur symlach.

Un mater allweddol a godwyd yn ystod y gynhadledd oedd statws tocynnau 'Saver' – y prif docynnau cyrraedd a mynd, allfrig ar gyfer teithiau hirach – y caiff rhai ohonynt eu rheoleiddio ac felly, mae unrhyw godiad o ran y pris yn cael ei gyfyngu i'r gyfradd chwyddiant ac 1%. Mae Ffocws ar Deithwyr yn parhau i drafod y cam o symleiddio prisiau a rheoleiddio gyda'r diwydiant a'r Adran Drafndiaeth. Rydym yn parhau i ymrwymo i wasanaeth rheilffyrdd fforddiadwy lle y mae modd i deithwyr gyrraedd a theithio.

Ffocws ar fasnachfreintiau

Yn ystod 2006-07, gwnaethpwyd newidiadau parhaus i strwythur a pherchnogaeth masnachfreintiau rheilffyrdd. Ym mis Awst, cyflwynodd Ffocws ar Deithwyr ei ymatebion i gynigion yr Adran Drafndiaeth ar gyfer masnachfreintiau New Cross Country, East Midlands a West Midlands. Seiliwyd ein cyflwyniadau ar waith ymchwil a gomisiynwyd gennym i ystyried blaenoriaethau teithwyr ar lwybrau yr oedd y masnachfreintiau hyn yn eu cynnwys.

Trafodwyd y themâu ymhellach yn ystod ein cynhadledd '*Passenger Focused Franchises*', a gynhaliwyd ym mis Tachwedd, ac a fynychwyd gan 120 o gynadleddwyr. Bu Tom Harris AS, y Gweinidog Rheilffyrdd a'r Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Drafndiaeth, a Stephen Hammond AS, Gweinidog Trafnidiaeth yr Wrthblaid, yn annerch y gynhadledd.

Roedd y cynnig ar gyfer masnachfaint New Cross Country yn bwnc allweddol. Roedd Ffocws ar Deithwyr yn pryderu y byddai'r cynigion, er eu bod o fudd i rai teithwyr, yn arwain at ostyngiad mewn nifer o deithiau uniongyrchol, gan arwain at ragor o deithwyr yn gorfod newid trenau yng ngorsaf New Street Birmingham – gorsaf sydd eisoes yn dioddef tagfeydd. Aethom ati i roi pwysau ar yr Adran Drafndiaeth i esbonio'r rhesymeg dros y cynigion, i nodi faint o deithwyr fyddai'n dioddef o ganlyniad ac i sôn am yr hyn sy'n cael ei gynllunio i leddfu rhai o'r canlyniadau.

Tuag at ddiwedd y flwyddyn, comisiynwyd gwaith ymchwil pellach gennym, pan holwyd dros 10,000 o deithwyr, er mwyn ymchwilio i'r effaith ar orsafoedd cyfnewid megis gorsaf New Street Birmingham. Canfu'r gwaith ymchwil y byddai nifer sylweddol o deithwyr yn cael eu heffeithio gan gynigion yr Adran Drafndiaeth ar gyfer y fasnachfaint ond, i deithwyr sy'n newid mewn gorsafoedd ac eithrio yng ngorsaf New Street Birmingham, ceir rhai gorsafoedd cyfnewid amgen realistig. Yn ogystal, bu'r gwaith ymchwil yn ystyried sut fyddai modd lleihau effaith y newidiadau hyn. Rydym yn parhau i gredu bod darparu gallu ychwanegol yn hanfodol i'r fasnachfaint newydd.

Rhoddodd Ffocws ar Deithwyr ei ymateb i'r Adran Drafndiaeth yn dilyn ei phenderfyniad i aildrafod ei contract gyda GNER ac i aildendro masnachfaint Prif Linell East Coast.

Yn ogystal, bu Ffocws ar Deithwyr yn cyflwyno tystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor Trafnidiaeth Tŷ'r Cyffredin ynghylch Masnachfreinio Gwasanaethau Rheilffyrdd i Deithwyr. Mynegwyd pryderon gennym ynghylch y pwyslais cyfredol ar ddyfarnu contractau masnachfaint ar sail y gost isaf ac, yn fwy diweddar, ar sicrhau taliad premiwm mawr i'r llywodraeth. Rydym yn teimlo bod hyn yn creu risgiau i deithwyr wrth i weithredwyr ystyried mesurau eithafol i ostwng costau, neu godi costau i deithwyr. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweld nifer o enghreifftiau o hyn.

- Ym mis Mehefin, cyhoeddodd GNER y byddai'n gwneud codiadau sylweddol o ran costau parcio, ac yn eu dyblu mewn rhai achosion – rhywbeth y gwnaeth Ffocws ar Deithwyr ei wrthwynebu'n chwyrn.
- Ym mis Mehefin, penderfynodd First Capital Connect atal teithwyr yr oedd ganddynt docynnau Dychwelyd Dydd Rhad rhag teithio o Lundain yn ystod yr oriau brig gyda'r hwyr. Roedd Ffocws ar Deithwyr yn gwrthwynebu'r penderfyniad hwn. Gan weithio gyda London TravelWatch ac eraill a oedd yn cynrychioli teithwyr, cawsom rhywfaint o lwyddiant wrth sicrhau bod y cwmni'n gwaredu cyfyngiadau mewn 12 gorsaf. Rydym yn parhau i ymgychu i waredu'r cyfyngiadau o'r holl orsafoedd eraill sy'n cael eu heffeithio. I'r perwyl hwn, rydym wedi cadeirio cyfarfod gyda theithwyr ac ASau yn Nhŷ'r Cyffredin, mynychu cyfarfod cyhoeddus yn St Albans, a chomisiynu gwaith ymchwil gan gyfnewid dros 500 o deithwyr i ystyried effaith y cyfyngiadau. Dywedodd pedwar o bob pum teithiwr a holwyd bod y trenau yr un mor llawn neu'n fwy llawn na chyn y cyflwynwyd y cyfyngiadau ar deithio yn ystod oriau brig gyda'r hwyr – sy'n bwrw amheuaeth ar un o ddadleuon First Capital Connect dros eu cyflwyno.

Bydd y cyhoeddiad a wnaethpwyd ar 4 Ebrill 2007 y bydd 48 o gerbydau'n cael eu trosglwyddo o Southern i First Capital Connect, yn lleihau gorlenwi a chredwn y dylai hyn alluogi First Capital Connect i waredu'r cyfyngiad yn ystod oriau brig gyda'r hwyr. Rydym yn parhau i drafod y mater hwn gyda nhw.

Capasiti a chynllunio rhwydwaith

Mae gan Strategaethau Defnyddio Llwybrau (SDLlau) Network Rail y potensial i gael effaith sylweddol ar ansawdd y gwasanaeth dros y tymor byr i'r tymor canolig. Gallai penderfyniadau a wneir yn y Strategaeth Defnyddio Llwybrau ddylanwadu ar faterion megis gorlenwi, amlder gwasanaethau, patrymau stopio, cau gorsafoedd a lefelau perfformio.

Fel un o'n blaenoriaethau allweddol ar gyfer eleni, rydym wedi:

- comisiynu gwaith ymchwil ac ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch SDLI yr Alban
- comisiynu gwaith ymchwil ac ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch SDLI Gogledd Orllewin Lloegr
- ymateb i ymgynghoriad yr Adran Drafnidiaeth ynghylch dewisiadau ar gyfer SDLI Prif Linell Brighton
- comisiynu gwaith ymchwil er mwyn helpu i roi gwybodaeth i astudiaeth SDLI Greater Anglia. Bu hwn yn ystyried hygyrchedd gorsafoedd a'r galw am leoedd parcio mewn gorsafoedd, a chanfuwyd y gallai diffyg lleoedd parcio gael goblygiadau go iawn ar arferion teithio ar y rheilffyrdd. Er enghraifft, dywedodd 17% o deithwyr yn Witham y byddent yn teithio mewn car yn unig os byddai'n anodd iddynt barcio yn yr orsaf.

Diogelwch a diogeledd

Ar 23 Chwefror 2007, aeth trê'n gwasanaeth 17.15 Virgin West Coast o Lundain i Glasgow oddi ar y cledrau ar ôl y pwyntiau yn Lambrigg ger Graygigg yng Nghymbria. Mae Ffocws ar Deithwyr yn estyn ei gydymdeimlad dwysaf â'r rhai a ddioddefodd brofedigaeth neu a anafwyd o ganlyniad i'r ddamwain.

Cyhoeddodd y Bwrdd Ymchwilio i Ddamweiniau Rheilffyrdd (RAIB) ei adroddiad interim am y ddamwain ar 26 Chwefror ac rydym yn aros am yr adroddiad terfynol. Nododd yr adroddiad interim sut y digwyddodd y ddamwain. Y peth pwysig i deithwyr nawr yw i ddarganfod pam ei bod wedi digwydd a'r gwersi y gellir eu dysgu er mwyn atal hyn rhag digwydd eto.

Mae Ffocws ar Deithwyr yn parhau i gynrychioli'r cyhoedd teithiol mewn ystod o weithgorau a grwpiau cynghori ar ddiogelwch, gan helpu i siapia strategaeth y diwydiant ac i hyrwyddo

trafodaeth wybodus ynghylch blaenoriaethau a thueddiadau o ran diogelwch ar y rheilffyrdd. Roedd ein gweithgareddau yn 2006-07 yn cynnwys:

- gweithio gyda'r Bwrdd Safonau a Diogelwch ar y Rheilffyrdd ar ei brosiect ymchwil, *'Managing On-Train Crowding'*
- cyflwyno papur *'Railway Safety: What does society want?'* yn y Gynhadledd Ryngwladol ar Ddiogelwch ar y Rheilffyrdd
- adrodd am dybiaethau teithwyr ynghylch diogeled personol (a'r ffordd o'i wella) fel rhan o fewnbwn i ddau ymchwiliad gan Bwyllgor Trafnidiaeth Tŷ'r Cyffredin: *Personal Passenger Safety in Railway Stations, a Travelling Without Fear*
- ymateb i ystod o ddogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â diogelwch.

Cerbydau

Mae gan Ffocws ar Deithwyr rôl cyfarwydd i gysylltu â gweithredwyr a chyrrff perthnasol eraill ynghylch datblygu ac adnewyddu cerbydau. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi cynnig sylwadau am y trên cyflym newydd ar gyfer gwasanaethau cymudwyr o Gaint i St Pancras a'r gwaith i adnewyddu fflyd bresennol trenau cyflym GNER.

Rydym hefyd yn aelodau o Fwrdd Budd-ddeiliaid Rhaglen *Intercity Express* (IEP) yr Adran Drafndiaeth. Mae IEP yn ystyried datblygiad a gweithrediad cenhedlaeth newydd o drenau ar gyfer llwybrau hir. Felly, roeddem yn croesawu cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafndiaeth y byddai'r gwaith yn dechrau i gaffael fflyd newydd o rhwng 500 a 2,000 o gerbydau. Byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant er mwyn helpu i sicrhau bod y trenau hyn yn diwallu anghenion teithwyr a'u bod yn darparu'r gallu angenrheidiol.

Yn ogystal, rydym yn croesawu cynlluniau i brofi'r trenau newydd a ddefnyddir gan y cyhoedd mewn ffordd gywir, er mwyn casglu adborth teithwyr cyn i'r trenau sy'n weddill gael eu cynhyrchu.

Yn ystod y flwyddyn, buom yn ymateb i ymgynghoriad Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd hefyd sef *'Leasing of Rolling Stock for franchised Passenger Services'* gan gytuno gyda'r penderfyniad i gyfeirio'r mater i'r Comisiwn Cystadleuaeth.

Hygyrchedd

Mae ystyried anghenion teithwyr sydd ag anableddau yn elfen allweddol o'n rôl statudol. Rydym yn aelod o Grŵp Llywio Diwydiant yr Adran Drafndiaeth, sy'n asesu 'cynlluniau bach' arfaethedig ar gyfer ceisiadau arian cyfatebol i wella safonau hygyrchedd gorsafoedd, sy'n cynnwys agweddau megis:

- disodli systemau gwybodaeth
- archebu dolenni sain ar gyfer swyddfeydd
- drysau awtomatig mewn gorsafoedd
- lifftiau a rampiau neu fynedfeydd newydd nad ydynt yn cynnwys grisiau
- manau eistedd sy'n cydymffurfio
- llochesau sy'n ddigon mawr i gynnwys cadeiriau olwyn.

Rhaid i bob cwmni trên gyflwyno ei Bolisi Diogelu Pobl Anabl (DPPP) newydd, neu sy'n cael ei ddiwygio'n flynyddol, i Ffocws ar Deithwyr er mwyn cael ei sylwadau, cyn bydd yr Adran Drafndiaeth yn gallu ei gymeradwyo. Dros y flwyddyn ddiwethaf, buom yn adolygu 10 DPPP, gan wneud nifer o argymhellion. Diwygiwyd pob DPPP yn dilyn ein sylwadau; ailysgrifennwyd un yn llwyr, gan fabwysiadu nifer o'n hargymhellion.

Yn ogystal, rydym yn parhau i fod yn aelod o Grŵp Rheilffordd Pwyllgor Cynghori ar Drafndiaeth Pobl Anabl (DPTAC) yr Adran Drafndiaeth.

Ewrop

Gall gweithgareddau Ewropeaidd gael effaith uniongyrchol ar deithwyr hefyd. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i fonitro datblygiadau yn yr UE a datblygiadau cysylltiedig o ran eu heffaith bosibl ar deithwyr, gan ddatblygu cysylltiadau gyda sefydliadau eraill i deithwyr a defnyddwyr, a chan ystyried ffyrdd o gynnwys Ffocws ar Deithwyr mewn materion sy'n codi o gynlluniau'r UE i ddatblygu Rheilffyrdd Teithwyr Ewropeaidd.

Ffocws ar Deithwyr yn yr Alban

Mae Ffocws ar Deithwyr wedi bod yn cynrychioli teithwyr yn yr Alban yn ystod y gwaith o ddatblygu strategaethau rheilffyrdd a thrafnidiaeth ar bob lefel yn yr Alban.

Ar y lefel genedlaethol, rydym wedi cyflwyno tystiolaeth i bwyllgorau Senedd yr Alban ynghylch ailagor llinell Airdrie i Bathgate a Chysylltiadau Rheilffordd Maes Awyr Caeredin a Glasgow. Yn ogystal, rydym wedi ymateb i ymgynghoriad Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol drafft Transport Scotland, sy'n nodi'r weledigaeth ar gyfer trafnidiaeth yn yr Alban dros yr 20 mlynedd nesaf.

Yn yr un modd, ar lefel ranbarthol, rydym wedi ymateb i'r Strategaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft a luniwyd o'r newydd gan Bartneriaethau Trafnidiaeth Rhanbarthol, sy'n nodi gweledigaeth ranbarthol ar gyfer trafnidiaeth dros yr 20 mlynedd nesaf.

Bu Ffocws ar Deithwyr yn allweddol wrth ddarparu canllaw i gysylltiadau ar gyfer teithwyr rhwng Haymarket a Waverley er mwyn lleihau'r anghyfleustra i deithwyr gymaint ag y bo modd yn ystod y gwaith o ddiweddarau gorsaf Waverley Caeredin.

Cyhoeddodd Network Rail y Strategaeth Defnyddio Llwybrau (SDLI) drafft ar gyfer yr Alban ym mis Awst 2006. Fel rhan o ymateb Ffocws ar Deithwyr i'r SDLI drafft, buom yn cynnal arolwg ymhlith dros 2,600 o deithwyr ynghylch y dewisiadau a gynigiwyd. Cynhwyswyd nifer o'n cynigion yn yr SDLI terfynol, gan gynnwys cadw gwasanaethau CrossRail Caeredin a'r cysylltiadau o'r De-orllewin i Ranbarth y Canolbarth.

Mae Ffocws ar Deithwyr yn parhau i ddarparu Cadeirydd annibynnol ar gyfer Fforymau Cwsmeriaid rhanbarthol First ScotRail.

Bu pwysau gan Ffocws ar Deithwyr o gymorth wrth helpu i sicrhau bod First ScotRail yn darparu o leiaf wyth lle i feiciau yn ei unedau trydan dosbarth 322 a adnewyddwyd. Mae'r rhain wedi bod yn boblogaidd ymhlith teithwyr ac maent wedi arwain at y cwmni trên yn ennill gwobr yn y diwydiant am arloesedd.

Ffocws ar Deithwyr yng Nghymru

Bu'n flwyddyn brysur i'r rheilffyrdd yng Nghymru, a bu Ffocws ar Deithwyr yn cydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) wrth iddi ymgymryd â mwy o gyfrifoldebau ym maes trafnidiaeth, gan gynnwys rheoli masnachfaint Trenau Arriva Cymru.

Lansiodd Ffocws ar Deithwyr nifer o brosiectau yn ystod y flwyddyn. Buom yn arwain menter a gynlluniwyd i fwrw golwg strategol ar wella darpariaeth gwasanaethau rheilffyrdd ar gyfer digwyddiadau mawr a gynhelir yn Stadiwm y Mileniwm yng Nghaerdydd, sydd eisoes wedi sicrhau cynllunio gwell ar gyfer gwaith peirianeg. Roedd y gweithgareddau eraill yn cynnwys:

- perfformiad ar linell Cambrian
- materion yn ymwneud â hygyrchedd mewn nifer o orsafoedd yng Nghymru a'r gororau
- datblygu ein prosiect Cynllun Iaith Gymraeg.

Buom yn cyflwyno tystiolaeth ar dri achlysur i Bwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau (MAR) Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Roeddem yn rhan o'r gweithgor craidd ar gyfer Aseiad Cynllunio Rheilffyrdd Cymru, gan ddadlau'n gryf dros gadw gwasanaethau rheilffordd sy'n helpu o ran cynhwysiant cymdeithasol mewn datblygiadau polisi a masnachfreintiau yn y dyfodol. Buom yn ymateb i ymgynghoriadau trafndiaeth allweddol hefyd, gan gynnwys Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Ar lefelau rhanbarthol a lleol, mae Ffocws ar Deithwyr wedi bod yn ymwneud yn agos â datblygiad y cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol sy'n cael eu paratoi gan y pedwar consortiwm trafndiaeth ar hyn o bryd, yn ogystal â chyfrannu at nifer o astudiaethau datblygu llinellau megis y rhai ar gyfer llwybrau Cambrian, Caer-Wreccsam-Amwythig a Harbwr Abergwaun.

Pan fo'r gwasanaethau wedi bod dan fgythiad, mae Ffocws ar Deithwyr wedi hyrwyddo pryderon teithwyr mewn ffordd weithredol. Mae llwyddiannau nodedig wedi cynnwys:

- ailsefydlu gwasanaethau allweddol yng nghyffordd Twannel Hafren ar gyfer cymudwyr sy'n teithio i Fryste
- ymrwymiad i gadw Piccadilly fel gorsaf pen y daith i drenau sy'n teithio o arfordir Gogledd Cymru i Fanceinion

Areithiau a digwyddiadau

Bu Ffocws ar Deithwyr yn cynrychioli safbwynt teithwyr mewn nifer o ddigwyddiadau a chynadleddau mawr trwy gydol 2006-07, gan drefnu nifer o'n digwyddiadau ein hunain hefyd.

Digwyddiadau allweddol a drefnwyd gan Ffocws ar Deithwyr yn ystod 2006-07:

- *'Unfare? The future of fares and ticketing in Great Britain'*, a gynhaliwyd yn Llundain – Ebrill 2006
- Digwyddiad yn Nhŷ'r Cyffredin ynghylch penderfyniad First Capital Connect i gyflwyno cyfyngiadau teithio yn ystod oriau brig gyda'r hwyr – Tachwedd 2006
- Cynhadledd *'Passenger Focused Franchises'*, a gynhaliwyd yn Birmingham – Tachwedd 2006

2.5 Bod yn gorff amlwg a hygyrch ac yn gorff y mae teithwyr yn ei ddeall

Pumed amcan y cynllun corfforaethol

Bod yn gorff amlwg a hygyrch ac yn gorff y mae teithwyr yn ei ddeall

Yr hyn y dywedom y byddem yn ei gyflawni

- Meincnodi pa mor hawdd yw hi i gysylltu â Ffocws ar Deithwyr

Yr hyn a wnaethom

- Cynnal meincnod a oedd yn dangos bod 82% o'r bobl a holwyd o'r farn ei bod yn hawdd cysylltu â Ffocws ar Deithwyr

Yr hyn y byddwn yn ei wneud yn 2007-8

- Gwella amlygrwydd ein rôl ymhlith teithwyr a'u dealltwriaeth ohono, gan sicrhau ei bod yn hawdd cysylltu â ni o hyd

Hygyrchedd dros y ffôn a'r rhyngwyd

Un o'n mesurau wrth ystyried bodlonrwydd teithwyr â'r ffordd y deliwyd â'u cwynion yw 'pa mor hawdd yw hi i gysylltu â Ffocws ar Deithwyr'. Rydym wedi llwyddo i sicrhau sgôr o 82% dan y pwynt hwn. Am ganlyniadau llawn yr arolwg, trowch at dudalen x.

Mewn arolwg annibynnol a gynhaliwyd gan HPI Research ymhlith 1,258 o deithwyr rheilffyrdd rhwng mis Medi a mis Hydref 2006, canfuwyd y canlynol:-

Trwy gyfrwng pa rai o'r ffyrdd canlynol y byddech yn dymuno gallu cysylltu â Ffocws ar Deithwyr?	Canran y teithwyr rheilffyrdd
Ffôn/Llinellau Cymorth	55%
E-bost	54%
Rhyngwyd/Ar-lein	43%
Post	23%
Bocsys awgrymiadau mewn gorsafoedd	18%
Fforymau ar y we	7%

Yn dilyn y gwaith ymchwil uchod, a oedd yn nodi mai'r dulliau mwyaf poblogaidd o gysylltu â Ffocws ar Deithwyr oedd dros y ffôn, trwy gyfrwng negeseuon e-bost neu ar y rhyngwyd, aethom ati i ddarganfod pa mor hawdd oedd hi i ddod o hyd i 'Ffocws ar Deithwyr' trwy chwilio ar y rhyngwyd neu ffonio rhifau chwilio am rif. Canfuom fod 15 o'r 17 cwmni chwilio am rif yn y DU wedi llwyddo i ddod o hyd i Ffocws ar Deithwyr pan oedd y sawl a oedd yn ffonio yn gwybod enw'r sefydliad, ond pan ofynnwyd am rif y 'corff gwarchod ar gyfer teithwyr rheilffyrdd' yn syml, dim ond ar bum achlysur o'r 34 achlysur y rhoddwyd cynnig ar hyn, y llwyddwyd i drosglwyddo'r alwad i Ffocws ar Deithwyr. Mewn chwiliadau ar y rhyngwyd gan ddefnyddio chwe chwilotwr poblogaidd, wrth chwilio am: 'rail complaint', 'rail watchdog', 'how to complain about rail services' a 'National passenger survey', gwelwyd bod Ffocws ar Deithwyr yn aml i'w

weld ar frig y rhestr; er enghraifft, rhestrodd chwiliadau ar Google, y chwilotwr mwyaf poblogaidd, www.passengerfocus.org.uk yn gyntaf ar gyfer dau o'r pedwar chwiliad. Er y gellir gwneud mwy i sicrhau bod ein gwefan newydd yn amlwg mewn chwilotwyr eraill yn gyson, mae nifer o deithwyr wedi cysylltu â ni trwy ein gwefan. Ers ei lansio ym mis Ionawr 2006, gwnaethpwyd dros 450,000 ymweliad unigol â'n gwefan. Ar gyfartaledd, mae'n cael dros 1000 o ymweliadau y dydd.

Rydym wedi gwneud nifer o newidiadau er mwyn sicrhau ei bod yn haws defnyddio'r wefan. Ychwanegwyd microsafle ar gyfer yr Arolwg Teithwyr Cenedlaethol, sy'n cynnwys y canlyniadau yn ogystal â gwybodaeth ynghylch cefndir yr arolwg, ynghyd ag adolygiad annibynnol o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd. Ychwanegwyd baner hyrwyddo barhaol i'r dudalen flaen er mwyn i ddefnyddwyr allu clicio ar ficrosafle'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol, a chyflwynwyd darn a oedd yn cynnwys technoleg animeiddio *Flash* er mwyn tynnu sylw at adrannau amserol ac wedi'u diweddarau yn y safle, a chynnig ffordd hawdd i ddefnyddwyr droi atynt. Mae'r nodwedd hon wedi arwain at gynnydd yn nifer yr ymweliadau ag adrannau o'r wefan sy'n cael eu hyrwyddo, gan gynnwys blog Ffocws ar Deithwyr. Lansiodd y blog ym mis Mehefin 2006 pan ddechreuodd pedwar o deithwyr rheilffyrdd ysgrifennu am eu profiadau wrth iddynt deithio ar hyd a lled y wlad. Ychwanegwyd adran 'materion cyfredol' newydd hefyd i dudalen flaen y wefan er mwyn galluogi pobl i weld y materion diweddaraf sy'n ymwneud â theithwyr.

Cyrraedd budd-ddeiliaid

2006 oedd y flwyddyn gyntaf i Ffocws ar Deithwyr gynnal digwyddiadau materion cyhoeddus yng nghynadleddau'r dair prif blaid wleidyddol ym Mhrydain er mwyn codi ei broffil ymhlith ASau.

Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf bwletin chwarterol Ffocws ar Deithwyr i fudd-ddeiliaid '*Passenger Voice*' ym mis Chwefror 2007. Caiff y cyhoeddiad, sy'n sôn am waith diweddaraf Ffocws ar Deithwyr, ei e-bostio neu ei bostio at dros 1,800 o bobl sydd â diddordeb yn y diwydiant rheilffyrdd o adrannau trafniadaeth awdurdodau lleol i ASau, newyddiadurwyr ac adrannau llywodraethol.

Cafodd Ffocws ar Deithwyr nifer o sylwadau cadarnhaol ynghylch cynllun a chynnwys y bwletin.

Cyfathrebu mewnol

Yn ogystal, aeth Ffocws ar Deithwyr ati i gryfhau ei drefniadau cyfathrebu mewnol, gan lansio *Infocus*, cylchlythyr i staff ac aelodau'r bwrdd sy'n rhannu arfer gorau ac sy'n adrodd am newyddion a datblygiadau yn y sefydliad.

Codi'r proffil yn y cyfryngau

Gwelwyd Ffocws ar Deithwyr yn parhau i sicrhau proffil amlwg yn y cyfryngau yn ystod 2006-07, gan gynnal 402 o gyfweiliadau a ddarledwyd yn genedlaethol ac yn lleol yn ystod y flwyddyn, o'u cymharu â 197 o gyfweiliadau a ddarledwyd y llynedd. Llwyddodd Ffocws ar Deithwyr i sicrhau sylw mewn 449 darn yn y cyfryngau cenedlaethol rhwng mis Ebrill 2006 a mis Mawrth 2007, a bu'r cyfryngau'n cyhoeddi manylion am waith ymchwil Ffocws ar Deithwyr, gan gynnwys y gwaith ymchwil ynghylch prisiau, dau gylch o'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol a'r gweithgarwch ymchwil siopwr cudd. Roedd materion eraill a oedd yn ymwneud â Ffocws ar Deithwyr, y rhoddwyd cryn sylw iddynt yn y cyfryngau, yn cynnwys gorlenwi, codiad mewn costau teithio GNER, tueddiadau cenedlaethol ar y rheilffyrdd, adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Drafniadaeth ynghylch 'prisiau teg', masnachfaint GNER, gweithgarwch arfaethedig i fynd ar streic a chyhoeddiad yr Adran Drafniadaeth ynghylch cerbydau ychwanegol.

Yn ogystal, mae Ffocws ar Deithwyr wedi amlygu ei broffil fel sefydliad i ddefnyddwyr trwy gynnal cyfweiliadau byw ar raglenni cenedlaethol i ddefnyddwyr gan gynnwys *You and Yours* (BBC Radio Four) a GMTV, yn ogystal â nifer o gyfweiliadau byw ar raglenni materion defnyddwyr ar orsafoedd radio rhanbarthol. Cynhaliodd Ffocws ar Deithwyr sgwrs fyw ar y we ar wefan *Good Housekeeping* gan ateb cwestiynau pobl ynghylch sut i gael y fargen orau wrth deithio ar y rheilffyrdd a chan roi cyngor i ddefnyddwyr mewn nifer o gyhoeddiadau gan gynnwys *Which?*, *BBC News online*, a *News of the World*. Llwyddodd Ffocws ar Deithwyr i sicrhau erthyglau yng nghylchgronau 15 o gwmnïau trên er mwyn hyrwyddo gwaith y sefydliad.

Trefnodd cynrychiolwyr Ffocws ar Deithwyr nifer o gyfarfodydd gyda theithwyr a grwpiau teithwyr yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Fforwm budd-ddeiliaid teithwyr 2 Mai 2006
- Cynhadledd grŵp defnyddwyr rheilffyrdd North West 13 Mai 2006
- Cyfarfod teithwyr Llinell Cambrian yn Amwythig 18 Mai 2006
- Cynhadledd grŵp defnyddwyr rheilffyrdd North East 17 Mehefin 2006
- Cynhadledd i ymgyrchwyr rheilffyrdd 1 Gorffennaf 2006
- Fforwm cwsmeriaid First ScotRail yn Dunfermline 4 Medi 2006
- Cyfarfod cyhoeddus ynghylch cyfyngiadau First Capital Connect ar deithio yn ystod oriau brig gyda'r hwyr 9 Tachwedd 2006
- Cyfarfod i ddefnyddwyr gwasanaethau rheilffyrdd Silverlink 15 Mawrth 2007

Anthony Smith

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

22 Gorffennaf 2007

Atodiadau

3.1 Atodiad un – adroddiad y Prif Weithredwr

Dyma'r ail adroddiad blynyddol a chyfrifon ar gyfer Ffocws ar Deithwyr, gan gynnwys y flwyddyn weithredol lawn gyntaf tan 31 Mawrth 2007. Gan ddatblygu'r gwaith paratoi a wnaethpwyd y llynedd, rydym wedi llwyddo i gyflawni yn erbyn amcanion allweddol ein cynllun busnes, gan barhau i fod yn ddigon hyblyg i ymateb i flaenoriaethau a materion i deithwyr rheilffyrdd sy'n dod i'r amlwg. Rhestrir ein cyflawniadau eleni yn nhudalennau 7 i 26 ac fe'u cyflawnwyd o fewn y gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer y flwyddyn.

Natur y busnes

Ffocws ar Deithwyr yw enw gweithredu'r Cyngor Teithwyr Rheilffyrdd, a sefydlwyd yn ffurfiol ar 24 Gorffennaf 2005 o ganlyniad i Ddeddf Rheilffyrdd 2005, ac mae'n gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol a noddir gan yr Adran Drafnidiaeth. Mae gan Ffocws ar Deithwyr swyddfeydd ym Manceinion ac yn Llundain ac mae ganddo weithwyr mewn lleoliadau amrywiol sy'n cysylltu gyda chwmnïau trên unigol er mwyn sicrhau gwelliannau i deithwyr.

Cyllid

Ariannir y sefydliad trwy gyfrwng cymorth grant gan yr Adran Drafnidiaeth a derbyniwyd £5,286,000 yn 2006-07, y neilltuwyd £0.9 miliwn ar gyfer gwaith ar yr Arolwg Teithwyr Cenedlaethol. Yn ogystal, mae Ffocws ar Deithwyr wedi sicrhau gwerth £82,000 mewn incwm trydydd parti eleni ar gyfer prosiectau ar y cyd. Cyfanswm y costau staff a'r costau gweinyddol eraill ar gyfer y flwyddyn oedd £5,276,000 a oedd yn cynnwys gwariant ar yr Arolwg Teithwyr Cenedlaethol.

Staff

Rhaid canmol y staff am y llwyddiannau a sicrhawyd eleni ac maent yn haeddu cael diolch am eu gwaith caled a'u cyfraniad dros y flwyddyn er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni amcanion ein cynllun busnes ar gyfer y flwyddyn gyntaf.

Er ei bod yn flin gennym gweld chwech o'n gweithwyr yn gadael eleni, roeddem yn falch o groesawu'r pedwar aelod newydd o staff a ymunodd â ni.

Yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, penderfynwyd uno'r ddau dîm o reolwyr cyswllt teithwyr ac yn dilyn ymarfer ymgynghori, terfynwyd dwy swydd, gan arwain at gostau colli gwaith o £59,000. Mae'r newidiadau yn adlewyrchu datblygiad y sefydliad ac yn rhoi'r strwythur priodol i'n galluogi i gyflawni ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Mae'n fforwm staff, sy'n gyfle i ymgynghori â chynrychiolwyr staff ynghylch materion sy'n effeithio ar y sefydliad, wedi bod yn weithredol trwy gydol y flwyddyn. Roedd y prif faterion a ystyriwyd gan y fforwm yn ystod ei flwyddyn lawn gyntaf yn cynnwys y cynlluniau hyfforddi, codiadau cyflog a lleihau effaith amgylcheddol y sefydliad.

Gwnaethpwyd rhywfaint o waith ailstrwythuro yn y bwrdd rheoli gweithredol eleni ac fe'i ddatblygwyd trwy gynnwys rheolwyr o bob tîm yn ogystal â chyfarwyddwyr gweithredol. Nodir manylion ynghylch tâl y cyfarwyddwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn yn yr adroddiad tâl ar dudalennau 43 i 46.

Llywodraethu corfforaethol

Mae gan Ffocws ar Deithwyr fwrdd o aelodau anweithredol a benodwyd yn dilyn proses gystadlu lawn a reoleiddiwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus (OCPA). Cynhwysir eu bywgraffiadau yn atodiad dau. Mae'r bwrdd yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol a phrif bolisiâu'r sefydliad, ac am ddarparu trefniadau llywodraethu corfforaethol a goruchwyliaeth dros y cyllid a'r gweithrediadau. Nodir aelodau'r bwrdd a'i bwyllograu yn sylwadau'r rheolwyr ar dudalennau 38 i 42.

Iechyd a diogelwch

Ein polisi yw darparu amgylchedd iach a diogel i'n staff a'n hymwelwyr. Adnewyddwyd y ddau safle sydd gennym, yn Llundain ac yn Manceinion, er mwyn darparu amgylchedd gwaith modern i'r staff.

Rhoddion elusennol a gwleidyddol

Ni wnaeth Ffocws ar Deithwyr roi unrhyw roddion elusennol neu wleidyddol yn ystod y flwyddyn.

Datgeliadau i archwilwyr

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, hyd yr wyf yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr Ffocws ar Deithwyr yn ymwybodol ohoni. Rydw i wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a bod archwilwyr Ffocws ar Deithwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Dyddiad cyhoeddi

Awdurdodais y cyfrifon i'w cyhoeddi ar 29 Mehefin 2007 yw'r dyddiad y cawsant eu cyhoeddi i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth.

Anthony Smith

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

22 Gorffennaf 2007

3.2 Atodiad dau – bywgraffiadau aelodau bwrdd Ffocws ar Deithwyr

Colin Foxall CBE yw cadeirydd Ffocws ar Deithwyr ac mae hefyd yn gyfarwyddwr anweithredol Radian Asset Assurance Ltd ac yn aelod o Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain.

Jessica Barrow oedd cyfarwyddwr cyfathrebu Age Concern Scotland ac roedd ar secondiad i Uned Pobl Hŷn Gweithrediaeth yr Alban.

David Burton oedd cyfarwyddwr rheoli West Anglia Great Northern Railway rhwng 1996 a 1999.

Brian Cooke yw Cadeirydd London TravelWatch. Roedd yn aelod o'r Pwyllgor Teithwyr Rheilffyrdd dros Ddwyrain Lloegr ac yn ymgynghorydd yn y diwydiant teithio.
[Penodwyd gan Gynulliad Llundain]

Philip Davis oedd cadeirydd y Pwyllgor Teithwyr Rheilffyrdd dros Ganolbarth Lloegr a bu'n Arweinydd Cyngor Unedol Telford a Wrekin rhwng 2000 a 2004. Mae'n gyn-drafodwr undeb llafur ac mae'n gyfarwyddwr rhwydwaith rhanbarthol Gorllewin Canolbarth Lloegr ar gyfer y sector gwirfoddol a chymunedol.

Bu **Kate Gordon CBE** yn aelod o'r Pwyllgor Teithwyr Rheilffyrdd dros Ddwyrain Lloegr ac yn flaenorol, bu'n was sifil yn y Gweithgor Iechyd a Diogelwch. Ar hyn o bryd, mae'n is-gadeirydd ymddiriedolaeth ysbyty GIG Queen Elizabeth, King's Lynn.

Mae **James King** yn aelod o Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain. Mae'n rheolwr gyfarwyddwr cwmni ymgynghori marchnata strategol.
[Penodwyd gan Weinidogion yr Alban]

Christine Knights oedd cadeirydd y Pwyllgor Teithwyr Rheilffyrdd dros Ogledd Ddwyrain Lloegr. Mae'n aelod o Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydain ac mae ganddi brofiad ym maes datblygiad polisi defnyddwyr a sefydliadau defnyddwyr yn Ewrop ac yn y DU.

Dr Derek Langslow CBE oedd cadeirydd y Pwyllgor Teithwyr Rheilffyrdd dros Ddwyrain Lloegr ac yn flaenorol, bu'n brif weithredwr English Nature. Mae'r cyflawni nifer o rolau anweithredol gan gynnwys Cadeirydd Bwrdd Twristiaeth Dwyrain Lloegr ac mae'n un o ymddiriedolwyr Cronfa Dreftadaeth y Loteri.

Deryk Mead CBE oedd prif weithredwr NCH, y prif elusen i blant, rhwng 1996 a 2004 ar ôl dilyn gyrfa ym myd llywodraeth leol.

Bu **Bill Samuel** yn brif weithredwr Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol Dwyrain Lloegr a chyn hynny, bu'n brif weithredwr Cyngor Dinas Peterborough. Mae'n cyflawni nifer o rolau anweithredol ac mae'n Ddirprwy Gadeirydd Thames Gateway Development Corporation.

Mae **Barbara Saunders OBE** yn ymgynghorydd defnyddwyr annibynnol sydd â phrofiad o drafod arian cyhoeddus yn y DU ac yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae wedi cyflawni nifer o rolau anweithredol ac yn flaenorol, bu'n cadeirio panel y Defnyddwyr Gwasanaethau Ariannol a Biwro'r Ombwdsmon Yswiriant.

Marc Seale yw prif weithredwr a chofrestrydd y Cyngor Proffesiynau Iechyd ar hyn o bryd ac yn flaenorol, bu'n gyfarwyddwr lles y cyhoedd ar gyfer y Ganolfan Sgiliau Rheilffyrdd.

Mae **Stella Mair Thomas** yn ymgynghorydd cyfathrebu, y cyfryngau a marchnata. Arferai fod yn Bennaeth y Comisiwn Teledu Annibynnol dros Gymru a Gorllewin Lloegr. *[Penodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru]*

Nigel Walmsley yw cadeirydd Tourism South East a'r Bwrdd Ymchwil Cynulleidfaoedd Darlledu. Arferai fod yn gadeirydd Carlton Television a chyn hynny, bu'n brif weithredwr Capital Radio Group.

3.3 Atodiad tri – staff

Ar 30 Mawrth 2007

Llundain

Tîm y prif weithredwr

Prif weithredwr - Anthony Smith

Cynorthwy-ydd personol y prif weithredwr a'r cadeirydd – Leilani Weier

Rheolwr llywodraethu corfforaethol – Sarah Hampshire

Ysgrifennydd y tîm (Llundain) – Sandra Tuah

Tîm cyfathrebu

Pennaeth cyfathrebu dros dro – Sarah Egan

Swyddog cyfathrebu - Pete Biggs

Swyddog y wasg - Jane Cobell

Tîm ymchwil a pholisi

Rheolwr polisi dros dro - Mike Hewitson

Cynghorydd polisi uwch – Philip Wilks

Rheolwr ymchwil teithwyr - Peter Thompson

Cynghorydd polisi ac ymchwil - Rachel King

Ymchwilydd teithwyr - David Greeno

Ymchwilydd gwybodaeth a data - Andrew Regan

Tîm cyswllt teithwyr – Llundain

Cyfarwyddwr cyswllt teithwyr - Mark Woodbridge

Rheolwr cyswllt teithwyr ('one', **GNER a First Capital Connect**) - Guy Dangerfield *

Rheolwr cyswllt teithwyr (**South West Trains**) - Jocelyn Pearson *

Rheolwr cyswllt teithwyr (**First Great Western**) - Michael Greedy *

Rheolwr cyswllt teithwyr (**Southern**) - Sharon Hedges *

Rheolwr cyswllt teithwyr (**c2c, South Eastern a Eurostar**) - Tunde Olatunji *

Cydlynnydd prosiect - Jasmin Matharu

Cydlynnydd prosiect - Sultana Idris

Manceinion

Tîm adnoddau

Cyfarwyddwr adnoddau - Nigel Holden

Cydlynnydd safleoedd a gwasanaethau - Eamon Caughey

Cydlynnydd cyllid ac AD - Suzette McGhee

Cynghorydd cyllid - Shahid Mohammed

Tîm cyswllt teithwyr – Manceinion

Cyfarwyddwr cyswllt teithwyr - John Mooney

Rheolwr cyswllt teithwyr (**Central Trains, Midland Mainline a Silverlink**) - Paul Fullwood *

Rheolwr cyswllt teithwyr (**Virgin West Coast**) - Julie Warburton*

Rheolwr cyswllt teithwyr (**Northern, Merseyrail a Hull Trains**) - David Sidebottom *

Rheolwr cyswllt teithwyr (**Trenau Arriva Cymru a materion Cymreig**) - Simon Pickering *

Rheolwr cyswllt teithwyr (**First ScotRail a materion Albanaidd**) - Robert Samson *

Rheolwr cyswllt teithwyr (**Virgin Cross Country a TransPennine Express**) - Susan Tibbett *

Cydlynnydd prosiect - John Sears

Cydlynnydd prosiect - Katie Springer

Cynorthwy-ydd Personol cyswllt teithwyr - Beverley Wright

Tîm cyfathrebu

Pennaeth gwasanaethau cwsmeriaid – Kerry Williamson

Rheolwr cyswllt teithwyr - Ashley Grumble

Cynghorydd cyswllt teithwyr - Clare Morris

Cynghorydd cyswllt teithwyr – Fiona Stenhouse

Cynghorydd cyswllt teithwyr - Kyle Yeldon

Cynghorydd teithwyr - Liz Wilkinson

Cynghorydd teithwyr - Catherine Lee

* yn gweithio mewn lleoliadau amrywiol

3.4 Atodiad pedwar

Rhestr o'r holl gyhoeddiadau, 2006–07

Ebrill 2006

'Making rail accessible for all' – adroddiad gan ACoRP ar gyfer Ffocws ar Deithwyr

'Passenger requirements of rail fares' – adroddiad ymchwil ansoddol a gynhyrchwyd gan Outlook Research ar gyfer Ffocws ar Deithwyr

Mai 2006

Crynodeb o safbwyntiau teithwyr o arolwg cipolwg Ffocws ar Deithwyr yng ngorsaf Brighton
Masnachfaint Greater Western – Dogfen friffio amserlen Rhagfyr 2006

Canfyddiadau ymchwil teithwyr - Ipswich i Lowestoft ac Ipswich i Bury St. Edmunds

Cynllun corfforaethol 2006-09 Ffocws ar Deithwyr

Mehfin 2006

Arolwg Teithwyr Cenedlaethol – cylch Gwanwyn 2006

'Guide to renewing season tickets' - taflen sy'n rhoi cyngor i ddefnyddwyr

'Just the ticket' – taflen sy'n rhoi cyngor i ddefnyddwyr

Cynllun Cyhoeddi Rhyddid Gwybodaeth Ffocws ar Deithwyr

'Light at the end of the tunnel?' – y ffordd y deliodd Chiltern Railways gyda'r trefniadau ar ôl i'r twnnel ddymchwel yn Gerrards Cross

Gorffennaf 2006

'Passengers' requirements of rail fares' – crynodeb o waith ymchwil meintiol

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2005-06 Ffocws ar Deithwyr

Rhoi teithwyr trên yn gyntaf (fersiwn Cymraeg o daflen wybodaeth *'Putting rail passengers first'*)

Arolwg Teithwyr Cenedlaethol – arweiniad i ddefnyddwyr

Awst 2006

Canfyddiadau adolygiad o'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol

Ymgynghoriad ar amserlen c2c – adroddiad Ffocws ar Deithwyr

Medi 2006

What passengers want from the new East Midlands franchise – crynodeb gweithredol

What passengers want from the new West Midlands franchise - crynodeb gweithredol

What passengers want from the new Cross Country franchise - crynodeb gweithredol

'7 ways to save' – taflen sy'n rhoi cyngor i ddefnyddwyr

Hydref 2006

'Encouraging edge of morning peak travel' – crynodeb o'r canfyddiadau ymchwil ac ystyriaethau polisi

First Capital Connect – ymchwil ar gyfyngiadau o ran tocynnau

Tachwedd 2006

'Overcrowding: a passenger perspective'

Ffocws ar Deithwyr yng Nghymru – gweithgareddau allweddol yng Nghymru

Consultation on implementation of the Brighton Mainline Route Utilisation Strategy – papur briffio i deithwyr, grwpiau rheilffyrdd a budd-ddeiliaid

Ionawr 2007

Arolwg Teithwyr Cenedlaethol – canlyniadau Hydref 2006

Chwefror 2007

Bwletin budd-ddeiliaid '*Passenger Voice*' – rhifyn un

Adroddiad Ffocws ar Deithwyr i Gyngor Sir Cheshire ynghylch gofynion sy'n ymwneud â hygyrchedd ar gyfer gorsaf Caer

Mawrth 2007

Gweithgarwch siopwr cudd ynghylch gwerthu tocynnau rheilffordd

'Getting to the station' – ymchwil a gynhaliwyd yn Nwyrain Lloegr

Profiadau teithwyr o orlenwi ar lwybrau yn ardal Bryste

3.5 Atodiad pump – Rhestr yr ymgynghoriadau yr ymatebwyd iddynt yn 2006-07

Gofynnir yn gyson i Ffocws ar Deithwyr gyfrannu i ymgynghoriadau â diwydiant er mwyn cyflwyno barn teithwyr am newidiadau neu ddatblygiadau arfaethedig i'r gwasanaeth.

Ymatebodd Ffocws ar Deithwyr i'r ymgynghoriadau canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

Dogfen	Sefydliad Cyhoeddi
Travelling without fear	Pwyllgor Trafnidiaeth Tŷ'r Cyffredin
Passenger Rail Franchising	Pwyllgor Trafnidiaeth Tŷ'r Cyffredin
Valuing Safety (dogfen drafod drafft)	RSSB
Wayfinding at stations: A good practice guide (drafft terfynol)	RSSB
Understanding Human Factors - a guide for the rail industry (drafft)	RSSB
Strategaeth Drafndiaeth Genedlaethol yr Alban	Gweithrediaeth yr Alban
Strategaeth Drafndiaeth Ranbarthol Ddrafft	HITRANS
Strategaeth Drafndiaeth Ranbarthol Ddrafft SPT	SPT
Strategaeth Drafndiaeth Ranbarthol Ddrafft SESTRAN	SESTRANS
Strategaeth Drafndiaeth Ranbarthol Ddrafft NESTRANS	NESTRANS
Strategaeth Drafndiaeth Ranbarthol Ddrafft SWESTRANS	SWESTRANS
Strategaeth Drafndiaeth Ranbarthol Ddrafft TACTRANS	TACTRANS
When to Evacuate (nodyn cyfarwyddyd drafft)	RSSB
Minimisation of Accidents at the Platform Train Interface (adroddiad terfynol drafft)	RSSB
Management of on-train crowding: Work Package 1: Adroddiad Cynnydd	RSSB
Age and Experience: the Strategy for a Scotland with an Ageing Population	Gweithrediaeth yr Alban
Pwyllgor Mesur Seneddol Rheilffordd Airdrie-Bathgate a Gwelliannau Cysylltiedig	Senedd yr Alban
Scotland RUS Draft for Consultation	Network Rail
Ymchwil i'r farchnad rholstoc	ORR
DDA 2005 Rail Vehicle Accessibility Exemption Order Regulations; Determination of Turnover; Penalty Setting code of Practice	DfT
DDA Rail Vehicle Accessibility Regulations Part 1	DfT
DPTAC Strategy 2007-2010	DfT
Prisiau Cosb	First Great Western
Proposed Railway Group Standard on Station Infrastructure	RSSB
Proposed Railway Group Standard on Interface between Station Platforms, Track and Trains	RSSB
Proposed revised Railway Group Standards on Accident and incident investigation	RSSB
Revision of Rule Book module on Preparation and movement of multiple-unit trains	RSSB
Cais am Dystysgrif Diogelwch ac Awdurdodi	SWT

Arolwg o'r diwydiant rheilffordd	Y Blaid Geidwadol
Prynant Arfaethedig Masnachfaint South Western gan Stagecoach Group plc	OFT
Dyletswyddau datblygiad cynaliadwy a'r amgylchedd ORR	ORR
Minor Modifications provisions in the railways Act 2005.	DfT
Amserlen Chiltern Railways	Chiltern
Tocynnau ar Gludiant Cyhoeddus	Pwyllgor Trafnidiaeth Tŷ'r Cyffredin
Cais am Dystysgrif Diogelwch ac Awdurdodi	Gatwick Express
Cais am Dystysgrif Diogelwch ac Awdurdodi	Southern
Cais am Dystysgrif Diogelwch ac Awdurdodi	Heathrow Express
Cais am Dystysgrif Diogelwch ac Awdurdodi	Hull Trains
Cais am Dystysgrif Diogelwch ac Awdurdodi	First Capital Connect
Cais am Awdurdodi Diogelwch	NR/CTRL
Cynllun gweithredu drafft ar gyfer 2007/08	LFEPa
Cais am Dystysgrif Diogelwch ac Awdurdodi	EUKL
Cais am eithrio o'r angen i osod TPSW mewn rhai PSRs	ORR
Ymgynghoriad ynghylch Offer Ymwneud â Rhanddeiliaid (i RSSB)	Greenstreet Berman
Cais am Dystysgrif Diogelwch ac Awdurdodi	Southeastern
Cais am Dystysgrif Diogelwch ac Awdurdodi	GNER
Ymgynghoriad am Strategaeth Cludiant Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Astudiaeth o Reilffordd Caer- yr Amwythig	Partneriaeth Rheilffordd Caer i'r Amwythig
Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Amlinellol Cynghrair Cludiant De Cymru	SEWTA
Strategaeth Cynghrair Trafnidiaeth Rheilffyrdd De Ddwyrain Cymru	SEWTA
Amlinelliad o Gonsortiw Cludiant Integredig De Orllewin Cymru	
Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol	SWWITCH
Ymgynghoriadau ynghylch amserlen ATW	ATW
Asesiad o Gynlluniau Rheilffyrdd Cymru	Llywodraeth Cynulliad Cymru â'r Adran Drafndiaeth
Astudiaeth Gwella Lein y Cambrian	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Consultation on Proposals for the Mayor of London's Rail Powers beyond the London Boundary	DfT
Ceisiadau am Fynediad i Draciau (niferus)	ORR
Ceisiadau am ddiwygio llif (niferus)	TOCs
Mân ddiwygiadau (amrywiol)	TOCs
84 Land sale proposals:	PRG
Dagenham Dock – minor closure consultation	C2C
Camborne Minor Closure DfT	FGW
Community Rail - Wherry Line designation	DfT
Central Trains DPPP	Central Trains
Grand Central DPPP	Grand Central
South West Trains DPPP	SWT
First Scotrail DPPP	FSR
Hull Trains DPPP	Hull Trains
Northern DPPP	Northern
Midland MainLine DPPP	MML
South West Trains Penalty Fares	SWT

Gorsaf Caer	ATW
Ymgynghoriad ynghylch amserlen c2c	C2C
Ymgynghoriad ynghylch amserlen Rhagfyr 2006	
masnachfrait Greater Western	FGW
Ymgynghoriad ynghylch newidiadau sylweddol i oriau agor	
swyddfeydd tocynnau	Southeastern
Strategaeth Defnyddio Llwybr North West	NR
Strategaeth Defnyddio Llwybr Brighton Mainline	NR
Strategaeth Defnyddio Llwybr yr Alban	NR
East Midlands franchise	DfT
West Midlands franchise	DfT
New Cross Country franchise	DfT
Consultation on the replacement of the Intercity East Coast franchise	DfT

3.6 Atodiad chwech – sylwadau'r rheolwyr

Natur y busnes

Ffocws ar Deithwyr yw enw gweithredol y Cyngor Teithwyr Rheilffyrdd a sefydlwyd ar 24 Gorffennaf 2005 dan y Ddeddf Rheilffyrdd 2005. Mae Ffocws ar Deithwyr yn gwarchod buddiannau teithwyr rheilffyrdd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Mae Ffocws ar Deithwyr yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol (*Non-Departmental Public Body - NDPB*) ac y mae'n cael ei noddi gan yr Adran Drafnidiaeth a'i ariannu drwy gymorth grant.

Bwrdd

Bydd aelodau anweithredol y bwrdd yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth (cadeirydd a dim mwy na 12 aelod), Cynulliad Cenedlaethol Cymru (un aelod), Gweinidogion yr Alban (un aelod) a Chynulliad Llundain (un aelod) yn unol â'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Mae aelodau'r bwrdd yn cymryd rhan weithredol, yn gwneud cyfraniad gwerthfawr ac yn rhoi arweiniad o ran y gwaith parhaus o ffocysu ar deithwyr. Mae cyfraniadau'n amrywio o gyfraniad dros dymor byr i brosiectau gweithredol unigol i gysylltiadau tymor hir a chefnogaeth allanol i Strategaethau Defnyddio Rheilffyrdd.

Rhestrir yr aelodau isod :

	Dyddiad cychwyn y penodiad	Bwrdd	Pwyllgor Archwilio	Pwyllgor Taliadau
C Foxall (Cadeirydd)	23 Medi 2005	√		
J K Barrow	24 Gorffennaf 2005	√	√ (hyd Fawrth 2007)	
D H Burton	24 Gorffennaf 2005	√	√	
B Cooke	24 Gorffennaf 2005	√		
P M Davis	24 Gorffennaf 2005	√		
K Gordon	24 Gorffennaf 2005	√		√
J A King	24 Gorffennaf 2005	√		
C E Knights	24 Gorffennaf 2005	√		√
D Langslow (Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio)	24 Gorffennaf 2005	√	√	
D Mead	24 Gorffennaf 2005	√	√ (hyd Fawrth 2007)	
W E Samuel	24 Gorffennaf 2005	√	√ (hyd Fawrth 2007)	
B Saunders	24 Gorffennaf 2005	√	√ (hyd Fawrth 2007)	
M J Seale	24 Gorffennaf 2005	√		√
S M Thomas	1 Mai 2006	√		
N Walmsley (Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau)	24 Gorffennaf 2005	√		√

Mae gan y bwrdd gyfrifoldeb corfforaethol am sicrhau fod Ffocws ar Deithwyr yn cyflawni'r nodau a'r amcanion y cytunwyd arnynt â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ac am hybu'r defnydd effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill gan Ffocws ar Deithwyr.

Prif bwrpas y pwyllgor archwilio yw bod yn gymorth i Ffocws ar Deithwyr â phopeth yn ymwneud â llywodraethu corfforaethol, rheoli arian a goruchwyllo'r broses o archwilio mewnol ac allanol (gan gynnwys y Datganiad Rheolaeth Fewnol). Mae hyn yn golygu rhoi cyngor, arweiniad a chymorth i'r Prif Weithredwr wrth gyflawni swyddogaeth y Swyddog Cyfrifyddu.

Prif ddiben y pwyllgor taliadau yw rhoi cymorth i Ffocws ar Deithwyr â phopeth yn ymwneud â thâl a pholisi graddio a thelerau cyflogaeth.

Perfformiad gweithredol

Mae ein cynllun corfforaethol yn amlinellu sut y byddwn yn cyflawni ein pum prif amcanion dros y tair blynedd nesaf, ac y mae'n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer pob un o'r pum amcan.

Mae ein pum amcan corfforaethol a'n prif amcanion fel a ganlyn:

Amcan un – deall anghenion a phrofiadau teithwyr rheilffyrdd

- ymgynghori â 50,000 o deithwyr drwy'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol bob blwyddyn, a chyhoeddi'r canlyniadau ddwywaith y flwyddyn, yn Ionawr a Gorffennaf
- cynnal nifer o brosiectau ymchwil penodol i gynorthwyo blaenoriaethau cyfundrefnol
- ymwneud â nifer o deithwyr bob blwyddyn drwy ymgynghori a gweithgareddau eraill

Amcan dau – sicrhau gwelliannau pendant a mesuradwy i deithwyr rheilffyrdd

- sicrhau 100 o welliannau mesuradwy i deithwyr

Amcan tri – rhoi grym i deithwyr rheilffyrdd drwy gyfrwng gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth

- cynyddu'r canran o deithwyr sy'n fodlon â dull Ffocws ar Deithwyr o ymdrin â chwynion o flwyddyn i flwyddyn
- cynyddu'r canran o deithwyr sy'n fodlon â'r cyngor a ddarperir gan Ffocws ar Deithwyr o flwyddyn i flwyddyn

Amcan pedwar – dylanwadu ar benderfyniadau tymor hir sylweddol sy'n effeithio ar deithwyr

- gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn yng nghanfyddiad rhanddeiliaid o ddylanwad Ffocws ar Deithwyr o ran cael y 'fargen orau i deithwyr rheilffyrdd'

Amcan pump – bod yn weladwy, yn hygyrch ac yn ddealladwy i deithwyr rheilffyrdd a rhanddeiliaid

- bod teithwyr Ffocws ar Deithwyr yn barnu ei bod yn hawdd cysylltu â nhw a chael gwybodaeth amdanynt

Rydym yn adrodd am ein datblygiad yn ôl yr amcanion cynllun corfforaethol hyn yn yr Arolwg o'r Flwyddyn, gan gynnwys sut yr ydym wedi mesur ein cyflawniadau eleni.

Y flwyddyn gyfredol

Fel y soniwyd yn adroddiad y Prif Weithredwr, aeth y sefydliad i gostau net o £5.2 miliwn yn ystod ei flwyddyn gyntaf lawn o weithredu hyd at 31 Mawrth 2007. Buddsoddiwyd tua 20 y cant

o'n gwariant ar ymchwil i faterion yn ymwneud â theithwyr rheilffyrdd sy'n sicrhau ein bod yn gallu darparu tystiolaeth wrthrychol i gefnogi gwelliannau.

Ariannwyd ein costau drwy gymorth grant a dderbyniwyd gan yr Adran Drafnidiaeth sy'n noddi Ffocws ar Deithwyr. Yn ogystal â hynny rydym wedi sicrhau cyfanswm o £82,000 o gyllid ar y cyd ar gyfer nifer o brosiectau.

Cyfanswm ein cronfeydd ar ddiwedd y flwyddyn oedd £290,000 a'r cyfanswm grant cymorth a dynnwyd i lawr oedd £5.3 miliwn, a defnyddiwyd y cyfan ar wariant refeniw.

Addasiad y Flwyddyn Flaenorol

Mae'r Llawlyfr Adroddiad Ariannol a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi'n gofyn bod cymorth grant yn cael ei drin fel cyllido o 2006-07 ymlaen. Mae hyn yn newid o'r polisi cyfrifyddu mewn cyfnodau blaenorol pan gofnodwyd cymorth grant fel incwm; oherwydd hynny addaswyd y ffigurau ar gyfer y flwyddyn flaenorol i adlewyrchu'r newid hwn. Dangosir manylion llawn yr addasiad hwn yn nodyn 21 y cyfrifon ond nid oes unrhyw effaith ar asedau net agoriadol neu derfynol Ffocws ar Deithwyr

Rhwymedigaethau Pensiynau

Mae Ffocws ar Deithwyr yn cymryd rhan yn nhrefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a ddisgrifir yn yr Adroddiad Taliadau ac y mae nodyn 1.7 y cyfrifon yn esbonio sut rydym yn rhoi cyfrif am rhwymedigaethau a chostau pensiwn.

Talu Cyflenwyr

Mae Ffocws ar Deithwyr yn ymdrechu i gydymffurfio â'r Cod Arferion Talu Gwell (*Better Payment Practice Code*) ac y mae'n ceisio talu anfonebau ymhen 30 diwrnod wedi eu derbyn a thalodd 98 y cant o anfonebau ymhen 30 diwrnod yn ystod y flwyddyn.

Staff

Yn ystod y flwyddyn mae pum aelod o staff wedi gadael ac rydym wedi croesawu pedwar aelod newydd ar y staff.

Fel y soniwyd yn adroddiad y Prif Weithredwr rydym wedi dileu dwy swydd yn chwarter olaf y flwyddyn fel rhan o'r broses o resymoli'r strwythur cyfundrefnol. Cynhwyswyd y costau colli swyddi o £59,000 sy'n gysylltiedig â'r newidiadau hyn yn y cyfrifon hyn.

Rydym wedi sefydlu fforwm staff i wneud yn siŵr fod gennym drefniadau ymgynghori effeithiol mewn perthynas â materion staff a chynllunio busnes.

Rydym wedi ymrwmo i gydraddoldeb cyfle i bob aelod o'n staff, ac nid ydym yn cydoddef gwahaniaethu ar sail rhyw, hil na gwreiddiau cenedlaethol, lliw, cred grefyddol, anabled, statws priodasol, oed na thueddfryd rhywiol.

Rydym yn awyddus i roi amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a datblygu i'n staff er mwyn gwneud yn siŵr fod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gwario £81,000 i gynorthwyo gwelliannau ym mherfformiad staff.

Adnoddau

Prif gryfder y sefydliad yw'r dylanwad y gall ei gael drwy'r wybodaeth a'r arbenigedd a enillir o ymchwil penodol i deithwyr, a thrwy weithio'n agos â phrif randdeiliaid yn y diwydiant rheilffyrdd.

Prif gaffaeliad Ffocws ar Deithwyr yw ei staff ac yn ystod y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn parhau i weithio'n agos â chynrychiolwyr staff i wella'r fframweithiau sydd wedi eu sefydlu er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn parhau i fod â'r sgiliau a'r arbenigedd cywir i gyflawni amcanion y cynllun corfforaethol yn y dyfodol.

Blynyddoedd i ddod

Mae amcanion y cynllun corfforaethol a amlinellwyd uchod yn dangos beth yw cynlluniau Ffocws ar Deithwyr yn y dyfodol ar gyfer cyflawni ein cenhadaeth o 'gael gwell bargaen i deithwyr rheilffyrdd'.

Mae gan y sefydliad nawdd o £5.8 miliwn y cytunwyd arno ar gyfer 2007-08, ac er nad oes cytundeb o ran nawdd ar gyfer 2008-09 a thu hwnt oherwydd bod hyn yn amodol ar ganlyniad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant rydym yn rhagweld y bydd nawdd yn parhau ar gyfer y sefydliad ar lefel fydd yn ddigonol i gyflawni'r amcanion cynllun busnes y cytunwyd arnynt.

Materion cymdeithasol ac amgylcheddol

Fel yr eglurwyd yn adroddiad y prif weithredwr, nid yw'r sefydliad yn rhoi unrhyw gyfraniad ariannol i elusennau.

O ran gwastraff swyddfa, rydym wedi cyflwyno ailgylchu lle bo hynny'n ymarferol. Yn ogystal â hynny mae Ffocws ar Deithwyr yn annog staff a'r bwrdd i ddefnyddio cludiant cyhoeddus lle bynnag y bo hynny'n bosibl wrth ymgymryd â busnes swyddogol.

Trefniadau cytundebol hanfodol

Mae prif drefniadau cytundebol y sefydliad ar gyfer ymchwil i deithwyr rheilffyrdd, gan gynnwys yr Arolwg Teithwyr Cenedlaethol (*National Passenger Survey - NPS*), a'r cyngor i deithwyr a ddarperir drwy'r ganolfan gyswllt allanol.

Aildendrwyd y cytundeb NPS yn ystod y flwyddyn a dyfarnwyd cytundeb tair blynedd yn fuan wedi diwedd y flwyddyn. Cyhoeddwyd manylion y cytundeb a ddyfarnwyd yng Nghylchgrawn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ym Mai 2007.

Mae'r cytundebau ar gyfer yr NPS a'r ganolfan alwadau allanol yn cael eu rheoli drwy gyfrwng adroddiadau rheolaidd ar berfformiad yn ôl lefelau gwasanaeth, a chawsant eu hadolygu yn ystod y flwyddyn i wneud yn siŵr eu bod yn parhau i fod yn addas ar gyfer y sefydliad newydd. Bydd y cytundebau yn cael eu hail-dendro pan fyddant yn cyrraedd diwedd eu tymor presennol.

Prif risgiau ac ansicrwydd

Mae gwaith Ffocws ar Deithwyr yn dibynnu'n helaeth ar ei hygredded a'r prif risg yw nad yw enw da'r sefydliad yn cael ei gynnal, ac y bydd hyn yn lleihau ei allu i ddylanwadu ar brif randdeiliaid er mwyn sicrhau gwelliannau i deithwyr rheilffyrdd. Er mwyn lliniaru'r risg hwn mae'r sefydliad wedi llunio model risg menter sydd, ymhlith pethau eraill, yn cael ei ddefnyddio i nodi a fydd prosiect neu ddarn o waith yn peryglu enw da Ffocws ar Deithwyr.

Risg arall sy'n cael ei reoli gan y sefydliad yw ymadawiad tri chyfarwyddwr gweithredol yn ystod y flwyddyn, lle lliniarwyd effaith y newidiadau hyn drwy wneud penodiadau dros dro a newid cyfrifoldebau ymhlith timau er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni blaenoriaethau'r cynllun busnes.

Strwythur ariannol y busnes

Mae Ffocws ar Deithwyr yn cael ei ariannu gan gymorth grant gan yr Adran Drafnidiaeth. Derbyniwyd taliad yn y lle cyntaf fel bod gan y sefydliad gyfalaf gweithio. Derbyniwyd taliadau misol gan yr Adran wedi hynny ar sail gwariant gwirioneddol yn ystod y mis blaenorol, ac anghenion a ragwelir yn y dyfodol. Fel y soniwyd uchod, mae Ffocws ar Deithwyr wedi cytuno ar ei anghenion ariannu â'r DfT ar gyfer y flwyddyn nesaf ac y mae wedi cyflwyno cynlluniau amlinellol ar gyfer yr arian sydd ei angen yn y dyfodol ond mae cytundeb yn amodol ar ganlyniad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.

ADRODDIAD TALIADAU AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2007

Aelodau'r pwyllgor taliadau yw Nigel Walmsley (cadeirydd), Kate Gordon, Marc Seale a Christine Knights.

Mae'r pwyllgor taliadau'n ystyried:

- strwythur tâl a graddio cyffredinol gweithwyr Ffocws ar Deithwyr
- costau byw blynyddol a chodiadau tâl perfformiad
- unrhyw newidiadau arfaethedig i delerau ac amodau cyflogaeth gweithwyr Ffocws ar Deithwyr
- unrhyw newidiadau arfaethedig i drefniadau'r pensiwn galwedigaethol
- y polisi cyffredinol ar gyfer talu staff ar lefel weithredol
- trefniadau taliadau unigol i staff ar lefel weithredol, ac y mae'n cymeradwyo unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau i'r trefniadau hynny wedyn
- lefel a strwythur taliadau ar gyfer staff ar lefel weithredol

Bydd cadeirydd y bwrdd a'r Adran Drafnidiaeth yn cytuno ar unrhyw gynnydd blynyddol yn nhaliadau aelodau'r bwrdd. Ni fu aelodau o'r pwyllgor taliadau yn ymwneud â phenderfyniadau'n gysylltiedig â'u taliadau eu hunain.

Mae aelodau'r bwrdd rheoli gweithredol yn weithwyr cyflogedig i Ffocws ar Deithwyr ac y mae ganddynt gytundebau gwaith parhaus. Mae'r trefniadau ar gyfer newidiadau i daliadau aelodau o'r bwrdd rheoli gweithredol yr un fath â'r rhai ar gyfer gweithwyr cyflogedig eraill y sefydliad. Roedd y cynnydd mewn taliadau a ddyfarnwyd i staff a chyfarwyddwyr gweithredol o 1 Ebrill 2006 ymlaen yr un fath â'r rhai hynny a ddyfarnwyd i aelodau eraill o'r staff a chawsant eu cymeradwyo gan y pwyllgor taliadau a'u cytuno â'r Adran Drafnidiaeth. Nid oedd y codiad cyflog ar gyfer y chyfarwyddwyr gweithredol o 1 Ebrill 2006 ymlaen yn cynnwys unrhyw elfen gysylltiedig â pherfformiad gan fod y cyfnod a fesurwyd yn un o newid; o ganlyniad ni chwblhawyd yr amcanion corfforaethol a chynllun busnes tan ddiwedd y cyfnod.

Aelodau'r Bwrdd

Amlinellir y taliadau a wnaed i aelodau anweithredol y bwrdd o ddyddiad eu penodiad hyd at 31 Mawrth 2007 isod.

	Ffioedd Bwrdd a dalwyd yn y cyfnod yn diwedd		Dyddiad Penodi	Dyddiad y daw'r penodiad i ben
	31 Mawrth 2007	31 Mawrth 2006		
	£000oedd	£000oedd		
C Foxall (Cadeirydd)	36	17	23 Medi 2005	22 Medi 2009
J K Barrow	15	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2008
D H Burton	15	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2008
B Cooke ¹	-	-	24 Gorffennaf 2005	30 Medi 2008
P M Davis	15	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2008
K Gordon	15	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2009
C E Knights	15	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2008
J A King	15	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2009
D Langslow	15	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2008
(Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio)				
S MThomas	14	-	1 Mai 2006	1 Mai 2009

D Mead	15	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2009
W E Samuel	15	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2009
B Saunders	15	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2009
M J Seale	15	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2008
N Walmsley	15	10	24 Gorffennaf 2005	23 Gorffennaf 2009

(Cadeirydd y Pwyllgor Taliadau)

¹ Penodir Mr B Cooke gan Gynulliad Llundain ac nid yw'n derbyn unrhyw ffoedd gan Ffocws ar Deithwyr ar gyfer y penodiad hwn

Nid yw'r taliadau a ddangosir yn y tabl yn cynnwys Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr sy'n daladwy gan Ffocws ar Deithwyr mewn perthynas â'r penodiadau hyn.

Nid yw Ffocws ar Deithwyr yn gwneud unrhyw ddarpariaeth pensiwn ar gyfer aelodau'r bwrdd, ac ni ddarparwyd unrhyw fudd-daliadau trethadwy ar gyfer aelodau'r bwrdd yn y cyfnod.

Mae gan bob aelod o'r bwrdd gyfnod rhybudd o dri mis ac nid oes unrhyw amodau iawndal am derfyniad buan yn eu cytundebau.

Bwrdd rheoli gweithredol

Mae aelodau'r bwrdd rheoli gweithredol ar gytundebau parhaus ac amlinellir eu taliadau, ynghyd â'u budd-daliadau pensiwn, isod:

Enw a theitl	Dyddiad Cychwyn / Dyddiad Gorffen	2006-07		Cyfanswm		Gwerth	
		Cyflwg mewn bandiau o £5,000 [2005-06 Cyfwerth â Blwyddyn Lawn Gymharol] £000oedd	2006-07 Cynnydd gwir mewn pensiwn a chyfan daliad cysylltiedig yn 60 oed (bandiau o £2,500) £000edd	pensiwn cronodig yn 60 oed ar 31 Mawrth 2007 a chyfandalia d cysylltiedig (bandiau o £2,500) £000oedd	Gwerth Trosglwydd o Cyfwerth ag Arian ar y dyddiad Gorffen £000oedd	Gwerth Trosglwyddo ar ddechrau blwyddyn £000 oedd agosaf	Cynnydd gwir mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian £000edd agosaf
A Smith	1 Ebrill 2006 - 31 Mawrth 2007	90-95 [80-85]	0-2.5 (N/A)	10-12.5 (N/A)	128	96	26
Prif Weithredwr							
C Jones	1 Ebrill 2006 - 17 Tachwedd 2006	35-40 [50-55]	0-2.5 (N/A)	5-7.5 (N/A)	43	37	5
Cyfarwyddwr Cyfathrebu							
N R Holden	1 Ebrill 2006 - 31 Mawrth 2007	55-60 [50-55]	0-2.5 (N/A)	0-2.5 (N/A)	16	6	10
Cyfarwyddwr Cyllid							
J Mooney	1 Ebrill 2006 - 31 Mawrth 2007	55-60 [50-55]	0-2.5 (N/A)	2.5-5 (N/A)	29	18	8
Cyfarwyddwr							

Cyswllt â Theithwyr	Mawrth 2007							
V Nawathe	1	Ebrill	15-20	0-2.5	2.5-5.0	54	49	4
Cyfarwyddwr	2006 - 25		[40-45]	(0-2.5)	(12.5-15.0)			
Polisi ac Ymchwil ¹	Awst 2006							
M	1	Ebrill	55-60	0-2.5	2.5-5	27	16	9
Woodbridge	2006 - 30		[50-55]	(N/A)	(N/A)			
Cyfarwyddwr	Mawrth							
Cyswllt â Theithwyr (archwiliwyd)	2007							

¹ Gweithiodd V Nawathe rhan amser (bedwar diwrnod yr wythnos) hyd ei hymddiswyddiad o 25 Awst 2006.

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog gros; tâl perfformiad neu daliadau bonws; oriau tros ben; hawliau neilltuedig i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfeydd preifat ac unrhyw lwfans arall sy'n drethadwy yn y DU.

Ni dderbyniodd y bwrdd rheoli gweithredol unrhyw fudd-daliadau mewn nwyddau neu fudd-daliadau heb fod yn arian parod yn ystod y cyfnod.

O ganlyniad i gyfuno'r timau cyswllt â theithwyr diddymwyd y ddwy swydd Cyfarwyddwyr Cyswllt â Theithwyr. Mae'r costau terfyniad buan mewn perthynas â'r newidiadau hyn wedi eu cyfyngu i daliadau cytundebol yn ôl telerau Cynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil. (archwiliwyd)

Rheolwyd ymadawiad tri chyfarwyddwr gweithredol yn ystod y flwyddyn drwy wneud penodiadau dros dro a chreu newidiadau mewn cyfrifoldebau ymhlith timau i sicrhau fod y broses o ddarparu blaenoriaethau'r cynllun busnes yn parhau.

Mae pob cyfarwyddwr yn aelodau o'r Cynlluniau Pensiwn *Classic*, *Premium* neu *Classic Plus*, ac amlinellir eu prif ddarpariaethau isod.

Pensiwn

Mae budd-daliadau pensiwn yn cael eu darparu drwy gyfrwng trefniadau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (*Principal Civil Service Pension Scheme - PCSPS*). O 1 Hydref 2002 ymlaen, gall gweision sifil fod yn aelodau o un o dri chynllun budd-dal diffiniedig 'cyflog terfynol' statudol (*Classic*, *Premium* a *Classic Plus*). Nid yw'r cynlluniau'n cael eu hariannu ac y mae costau budd-daliadau'n cael eu talu o gyllid y pleidleisir drosto gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy dan y cynlluniau *Classic*, *Premium* a *Classic Plus* yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â newidiadau yn y Mynegai Prisiau Manwerthu. Gall y rhai sy'n dod i mewn i'r cynllun ers 1 Hydref 2002 ddewis rhwng ymaelodi â'r cynllun *Premium* neu ymuno â threfniant cyfranddeiliaid 'prynu arian' o safon â chyfraniad sylweddol gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn Partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr cyflogedig wedi eu gosod ar gyfradd o 1.5 y cant o enillion pensiwn ar gyfer y cynllun *Classic* a 3.5 y cant ar gyfer *Premium* a *Classic Plus*. Mae budd-daliadau yn y cynllun *Classic* yn cronni ar gyfradd o 1/80fed rhan o gyflog pensiwn am bob blwyddyn o wasanaeth. Ar ben hynny, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth i dair blynedd o bensiwn yn daladwy pan fo gweithiwr yn ymddeol. Yn y cynllun *Premium*, mae budd-daliadau'n cronni ar gyfradd o

1/60fed rhan o enillion pensiwn terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun *Classic*, does dim cyfandaliad fel mater o drefn (ond gall aelodau ildio (cymudo) rhywfaint o'u pensiwn i greu cyfandaliad). Amrywiad ar y cynllun *Premium* yw *Classic Plus* yn y bôn, ond fod budd-daliadau mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo yn yr un modd yn fras â'r cynllun *Classic*.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw cyfrif pensiwn Partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol o rhwng 3 y cant a 12.5 y cant (gan ddibynnu ar oed yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisodd y gweithiwr cyflogedig. Does dim rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond lle bo'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn talu swm cyfatebol i'r rhain hyd at derfyn o 3 y cant o gyflog pensiwn (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8 y cant yn ychwanegol o gyflog pensiwn i dalu cost yswiriant budd-dal risg a ddarperir yn ganolog (marw mewn swydd ac ymddeol oherwydd afiechyd).

Gallwch gael mwy o fanylion am drefniadau'r PCSPS ar y wefan www.civilservice-pensions.gov.uk

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian (*Cash Equivalent Transfer Value* - CETV) yw gwerth cyfalaf budd-daliadau'r cynllun pensiwn a gronnodd aelod ar adeg benodol, wedi'i asesu'n actiwaraid. Y budd-daliadau a brisir yw budd-daliadau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol gan briod sy'n daladwy o'r cynllun. Taliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn yw CETV er mwyn sicrhau budd-daliadau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r budd-daliadau a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn gysylltiedig â'r budd-daliadau y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan yn y cynllun pensiwn, nid yn unig ei wasanaeth ar lefel uwch lle mae datgeliad yn berthnasol.

Mae'r ffigurau CETV, a'r manylion pensiwn eraill o 2003-2004, yn cynnwys gwerth unrhyw fudd-dal pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi eu trosglwyddo i'r trefniadau PCSPS ac y mae'r Bleidlais Gwasanaeth Sifil wedi derbyn tâl trosglwyddo amdano sy'n gymesur â'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol sy'n cael eu hysgwyddo. Maen nhw hefyd yn cynnwys unrhyw fudd-dal pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod o ganlyniad i brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar eu cost eu hunain. Mae CETVs yn cael eu cyfrifo oddi mewn i'r canllawiau a'r fframwaith a bennwyd gan Sefydliad a Chyfadrann yr Actiwariaid.

Cynnydd Gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir i bob pwrpas gan y cyflogwr. Mae'n cymryd i ystyriaeth y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr cyflogedig (gan gynnwys gwerth unrhyw fudd-daliadau a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac y mae'n defnyddio ffactorau marchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Anthony Smith
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
22 Mehefin 2007

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

Dan baragraff 8(2) Atodlen 5 y Ddeddf Rheilffyrdd 2005, mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, â chymeradwyaeth y Trysorlys, wedi cyfarwyddo Ffocws ar Deithio i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar y sail a amlinellwyd yn y Cyfarwyddyd Cyfrifo. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail cronïadau ac y mae'n rhaid iddynt roi golwg gwir a theg ar sefyllfa Ffocws ar Deithwyr ar ddiwedd blwyddyn ac ar ei incwm a'i wariant a'r holl enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llif arian ar gyfer y cyfnod ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae gofyn i Ffocws ar Deithwyr gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiad Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol i:

- gadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifo a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgeliad perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifyddu priodol yn gyson
- gwneud penderfyniadau a llunio amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u hamlinellwyd yn Llawlyfr Adroddiad Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wro sylweddol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol i dybio y bydd Ffocws ar Deithwyr yn parhau i weithredu

Dynododd Cyfarwyddwr *General Rail*, fel Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ar gyfer yr Adran Drafnidiaeth, Brif Weithredwr Ffocws ar Deithwyr yn Swyddog Cyfrifyddu. Amlinellir ei gyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol amdanynt, cadw cofnodion cywir a diogelu asedau Ffocws ar Deithwyr, ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu a ddsbarthwyd gan y Trysorlys ac a gyhoeddwyd yn '*Government Accounting*'.

Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu ar Reolaeth Fewnol

Cwmpas cyfrifoldeb

Fel Swyddog Cyfrifyddu mae gennyf gyfrifoldeb am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n gymorth i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion cyfundrefnol fel yr amlinellwyd yn y Datganiad Rheolaeth a'r Memorandwm Ariannol tra'n diogelu'r cronfeydd cyhoeddus a'r asedau cyfundrefnol yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd i mi yn *Government Accounting*. Rwy'n gyfrifol i Gyfarwyddwr *General Rail*, i Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yr Adran Drafnidiaeth ac i'r Senedd am sicrhau gwerth am arian, cysondeb a phriodoldeb wrth ddefnyddio holl adnoddau'r sefydliad.

Mae Ffocws ar Deithwyr yn cael cymorth gan aelodau'r bwrdd sy'n gyfrifol am:

- osod strategaethau'r sefydliad a rhoi fframweithiau ar waith
- monitro perfformiad yn ôl amcanion a thargedau'r cynllun gwaith blynyddol
- nodi'r gweithgareddau canolog sydd eu hangen i gynorthwyo'r broses o gyflawni'r cynllun corfforaethol a chymeradwyo'r gyllideb flynyddol
- gwerthuso effaith materion sy'n dod i'r amlwg neu wyriadau sylweddol o'r ddarpariaeth gorfforaethol a'r cynllun gwaith

Mae'r bwrdd yn cael ei gadeirio gan unigolyn penodedig anweithredol ac y mae'n cynnwys 13 aelod anweithredol. Sefydlwyd pwyllgor archwilio i gynorthwyo'r prif weithredwr drwy fonitro ac adolygu digonolrwydd ac effeithlonrwydd y canlynol yn y sefydliad:

- trefniadau llywodraethu corfforaethol
- prosesau ar gyfer rheoli risgiau
- archwiliad mewnol a gweithgareddau cysylltiedig
- ymateb rheolwyr i argymhellion sy'n deillio o waith archwilio mewnol
- datganiadau'r Swyddog Cyfrifyddu am reolaeth fewnol.

Bydd prif weithredwr ac uwch-reolwyr Ffocws ar Deithwyr yn cyfarfod ag uwch-reolwyr o'r Adran Drafnidiaeth yn rheolaidd. Fel rheol bydd y cyfarfodydd hyn yn digwydd bob chwarter ac ymhlith y materion a drafodir mae perfformiad yn ôl cynlluniau gweithredu, gwariant ariannol a datblygu polisïau. Ar ben hynny, bydd cadeirydd Ffocws ar Deithwyr yn cyfarfod â Gweinidogion yn rheolaidd.

Diben y system rheolaeth fewnol

Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg hyd at lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethiant er mwyn cyflawni polisïau, nodau ac amcanion; oherwydd hynny dim ond sicrwydd rhesymol o effeithlonrwydd, yn hytrach na sicrwydd llwyr, y gall ei roi. Seiliwyd y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion corfforaethol, gwerthuso pa mor debygol yw hi y bydd y risgiau hynny'n digwydd a'r effaith pe byddent yn digwydd, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol, ac yn economaidd. Yn ystod 2006-7 mireiniwyd y system rheolaeth fewnol a sefydlwyd yn 2005-06 ymhellach ac y mae wedi'i gwreiddio yn y sefydliad erbyn hyn.

Gallu i ymdrin â risg

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb am adolygu ein gallu i ymdrin â risg. I'r perwyl hwn mae Ffocws ar Deithwyr wedi datblygu'r canlynol ac y mae'n eu gweithredu:

- polisi rheoli risg sy'n adlewyrchu diben a'r dull gwaelodol o reoli risg a rôl y staff a'r tîm uwch-reolwyr, a fydd ar gael i'r holl staff ar y fewnwyd;
- cofrestr risg gyfundrefnol sy'n nodi'r prif risgiau gweithredol a neilltuwyd i berchnogion risg unigol. Mae'r gofrestr risg y mae Ffocws ar Deithwyr wedi'i gweithredu yn cynnwys camau

lliniarol i ddileu neu leihau'r risg hwn ac y mae'n cael ei hadolygu'n gyson i weld pa mor effeithiol ydyw.

Y fframwaith risg a rheolaeth

Mae fframwaith rheoli risg Ffocws ar Deithwyr yn cymryd i ystyriaeth y Cod Arferion Da ar Lywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog a gyhoeddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi, ac y mae'n cael ei weithredu drwy:

Bwrdd

Roedd y bwrdd yn cynnwys cadeirydd anweithredol ac 14 aelod anweithredol a chyfarfu saith gwaith yn ystod y cyfnod i :

- ystyried a chymeradwyo cynlluniau gwaith Ffocws ar Deithwyr ar gyfer y cyfnod gan gynnwys neilltuo adnoddau i gyflawni'r cynlluniau hynny
- monitro cynnydd yn ôl y cynlluniau gwaith ar gyfer y cyfnod drwy adroddiadau rheolaidd gan y bwrdd rheoli
- ystyried adroddiadau ariannol rheolaidd
- ystyried a chymeradwyo polisiâu a dulliau gweithredu i'w mabwysiadu gan Ffocws ar Deithwyr
- ystyried a chymeradwyo gwariant yn unol â'r polisi caffael a fabwysiadwyd gan Ffocws ar Deithwyr.

Y pwyllgor archwilio

Mae'r pwyllgor archwilio yn cynnwys pedwar aelod anweithredol a chyfarfu chwe gwaith yn ystod y cyfnod i ystyried:

- yr adroddiadau ariannol chwarterol
- y polisiâu a'r dulliau gweithredu sydd i'w rhoi ar waith gan Ffocws ar Deithwyr
- y gweithgaredd sydd ar y gweill a chanlyniadau'r archwiliad allanol a mewnol a chyrrff eraill
- digonolrwydd ymateb y rheolwyr i faterion a nodwyd gan yr archwiliad a chyrrff arolygu eraill bob chwarter
- y polisi a'r dulliau gweithredu rheoli risg a reolir gan y swyddogion gweithredol.

Cyflwynodd cadeirydd y pwyllgor archwilio adroddiadau rheolaidd i'r bwrdd ar weithgareddau'r pwyllgor archwilio ac unrhyw gasgliadau'n ymwneud â rheolaeth fewnol.

Archwiliad mewnol

Mae Archwilio Mewnol yn cyflwyno adroddiadau i'r pwyllgor archwilio ac yn cytuno ar raglen dreigl o archwiliadau ar gyfer pob blwyddyn sydd i ddod yn unol â blaenoriaethau'r bwrdd. Cynhyrchir adroddiadau archwilio rheolaidd, ynghyd â'r adroddiad blynyddol am archwiliad mewnol ar ddiwedd blwyddyn, fel y'i diffiniwyd gan Safonau Archwiliad Mewnol y Llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys barn annibynnol y Pennaeth Archwiliadau Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y sefydliad.

Mae'r archwilwyr mewnol wedi rhoi sicrwydd llawn neu sylweddol mewn perthynas ag archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn gan gynnwys gweithredu'r Arolwg Teithwyr Cenedlaethol, darparu Gwasanaethau HR, Llywodraethu Corfforaethol, a Systemau Ariannol. Ni wnaed unrhyw argymhellion risg mawr a chyflwynodd yr adroddiad blynyddol sicrwydd sylweddol yn gyffredinol.

Neilltuwyd cyfrifoldebau ac amserlenni i reolwyr ar gyfer gweithredu argymhellion yr archwiliadau sydd naill ai wedi eu cwblhau neu yn y broses o gael eu cwblhau. Y prif argymhellion yn ystod y cyfnod oedd gwella'r dulliau gweithredu ar gyfer cofnodi: prosesau a

chamau rheoli risg, penderfyniadau'n ymwneud ag ail-neilltuo adnoddau, cyfarfodydd rheoli cytundebau, a threfniadau parhad busnes a threfniadau wrth gefn.

Rheoli risg

Sail y fframwaith rheoli risg, yn ogystal â'r gofrestr risg gyfundrefnol, yw'r broses ganlynol:

- adolygu'r gofrestr risg yn gyson
- nodi prif risgiau pan fo materion yn cael eu cyflwyno i'r bwrdd i'w hystyried
- cynnwys rheoli risg yn eitem reolaidd ar agenda'r pwyllgor archwilio
- bwrdd rheoli sy'n cyfarfod yn rheolaidd i ystyried cynlluniau gweithredol a chyfeiriad strategol y sefydliad
- sicrhau bod gweithrediadau a system rheolaeth fewnol Ffocws ar Deithwyr yn cydymffurfio â phrif argymhellion adrannau'r llywodraeth fel Swyddfa'r Cabinet a Swyddfa Masnach y Llywodraeth (*Office of Government Commerce* - OGC) mewn perthynas ag arferion gorau.

Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu mae gennyf gyfrifoldeb am adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol. Sail fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yw gwaith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol yn y sefydliad sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr i'r rheolwyr ac adroddiadau eraill. Rhoddodd y pwyllgor archwilio gyngor i mi ynghylch goblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol a lluniwyd cynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau fod y system yn gwella'n barhaus.

Anthony Smith

Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

22 Mehefin 2007

TYSTYSGRIF RHEOLWR AC ARCHWILYDD CYFFREDINOL I'R SENEDD

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Ffocws ar Deithwyr (enw gweithredol y Cyngor Teithwyr Rheilffyrdd) ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2007 dan y Ddeddf Rheilffyrdd 2005. Mae'r rhain yn cynnwys y Cyfrif Incwm a Gwariant, Datganiad o Enillion a Cholledion Cydnabyddedig, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r polisiau cyfrifyddu a amlinellwyd ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Taliadau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel un wedi'i archwilio.

Cyfrifoldebau unigol Ffocws ar Deithwyr, y Swyddog Cyfrifyddu a'r archwiliwr

Ffocws ar Deithwyr a'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol, yr Adroddiad Taliadau a'r datganiadau ariannol yn unol â'r Ddeddf Rheilffyrdd 2005 a chyfarwyddiadau'r Adran Drafnidiaeth a wnaed trwy hynny ac am sicrhau fod y trafodion ariannol yn gywir. Amlinellir y cyfrifoldebau hyn yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r adroddiad taliadau sydd i'w archwilio yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoliadol perthnasol, a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU ac Iwerddon).

Rwy'n mynegi fy marn i chi a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gwir a theg ac a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w archwilio wedi eu paratoi'n gywir yn unol â'r Ddeddf Rheilffyrdd 2005 a chyfarwyddiadau'r Adran Drafnidiaeth a wnaed trwy hynny. Rwy'n adrodd i chi a yw'r wybodaeth arbennig a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol, sy'n cynnwys Arolwg o Weithgareddau, Adroddiad y Prif Weithredwr, Sylwadau'r Rheolwyr a'r Adroddiad Taliadau, yn gyson â'r datganiadau ariannol yn fy marn i. Rwyf hefyd yn adrodd a yw'r gwariant a'r incwm, i bob pwrpas hanfodol, wedi eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Yn ogystal â hynny rwy'n eich hysbysu os nad yw Ffocws ar Deithwyr wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau rwyf eu hangen ar gyfer f'archwiliad, neu os na ddatgelir gwybodaeth a nodir gan Drysorlys ei Mawrhydi mewn perthynas â thaliadau a thrafodion eraill.

Rwy'n adolygu a yw'r Datganiad ar Reolaeth Fewnol yn adlewyrchu cydymffurfiad Ffocws ar Deithwyr â chanllawiau Trysorlys ei Mawrhydi, ac rwy'n adrodd os nad yw'n gwneud hynny. Nid oes angen i mi ystyried a yw'r datganiad hwn yn cynnwys pob risg a rheolaeth, na mynegi barn ar effeithiolrwydd dulliau gweithredu llywodraethu corfforaethol Ffocws ar Deithwyr na'i ddulliau gweithredu risg a rheolaeth.

Rwy'n darllen yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Rwy'n ystyried y goblygiadau ar gyfer f'adroddiad os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau hanfodol â'r datganiadau ariannol. Nid yw fy nghyfrifoldebau'n ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

Sail barn yr archwiliad

Cynhaliais f'archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae f'archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail sampl, dystiolaeth berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a chywirdeb y trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w archwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r penderfyniadau allweddol a wnaeth Ffocws ar Deithwyr a'r Swyddog Cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu'r rhai mwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau Ffocws ar Deithwyr, a ydynt yn cael eu defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniais a chynhaliais f'archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a ystyriais oedd yn angenrheidiol er mwyn rhoi tystiolaeth ddigonol i mi i roi sicrwydd rhesymol nad oes camdatganiadau sylweddol yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w archwilio, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad ac i bob pwrpas hanfodol fod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn i gwerthusais hefyd pa mor ddigonol yn gyffredinol y cyflwynwyd yr wybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w archwilio.

Barn

Barn yr Archwiliad

Yn fy marn i:

- yn unol â Deddf Rheilffyrdd 2005 a'r cyfarwyddiadau a wnaed trwy hynny gan yr Adran Drafnidiaeth, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gwir a theg ar gyflwr sefyllfa Ffocws ar Deithwyr fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2007 a'i wariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny ;
- paratowyd y datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w archwilio yn gywir yn unol â'r Ddeddf Rheilffyrdd 2005 a chyfarwyddiadau'r Adran Drafnidiaeth a wnaed trwy hynny; a
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol sy'n cynnwys Arolwg o Weithgareddau, Adroddiad y Prif Weithredwr, Sylwadau'r Rheolwyr ac Adroddiad Taliadau yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Barn yr Archwiliad ynghylch Cywirdeb

Yn fy marn i, i bob pwrpas hanfodol, defnyddiwyd y gwariant a'r incwm i'r dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac y mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn

*John Bourn
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
London
SW1W 9SP
26 Mehefin 2007*

**CYFRIF INCWM A GWARIANT
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2007**

		2006-07		2005-06 36 wythnos (ailddatganwyd) £000oedd
	Nodyn	£000 oedd	£000oedd	
Incwm				
Incwm o weithgareddau gweithredu	2		82	-
Gwariant				
Costau staff	3	2,215		1,187
Costau gweinyddol eraill	4	<u>3,061</u>		<u>2,755</u>
			<u>5,276</u>	<u>3,942</u>
Gwariant net cyn eitem eithriadol			<u>(5,194)</u>	<u>(3,942)</u>
Gwelliannau i'r lesddaliad wedi'u dileu			-	(72)
Gwariant net ar ôl eitemau eithriadol			<u>(5,194)</u>	<u>(4,014)</u>
Llog derbyniadwy	5		11	-
Cost dybiannol cyfalaf	6		(14)	(11)
Gwariant net ar weithgareddau gweithredu			<u>(5,197)</u>	<u>(4,025)</u>
Ychwanegu cost dybiannol cyfalaf			14	11
Gwariant net a drosglwyddwyd i'r Gronfa Gyffredinol			<u>(5,183)</u>	<u>(4,014)</u>

Mae'r holl symiau'n ymwneud â gweithgareddau parhaus.

DATGANIAD ENILLION A CHOLLEDION CYDNABYDDEDIG

	2006-07	2005-06 36 wythnos (Ailddatganwyd) £000oedd
	£000oedd	
Gwariant net ar weithgareddau gweithredu ar gyfer y flwyddyn	(5,197)	(4,025)
Cost dybiannol cyfalaf	14	11
Gwarged heb ei gwireddu ar ailbrisiad	10	-
Cyfanswm y colledion cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn	<u>(5,173)</u>	<u>(4,014)</u>

Mae'r Polisiâu a'r Nodiadau Cyfrifo ar dudalennau 56 i 63 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2007

	Nodyn	Ar 31 Mawrth 2007		Ar 31 Mawrth 2006
		£000 oedd	£000 oedd	£000oedd
Asedau Sefydlog				
Asedau diriaethol	7		219	269
Asedau Cyfredol				
Dyledwyr (dyledus ymhen blwyddyn)	8	148		135
Arian yn y banc	9	517		648
		<u>665</u>		<u>783</u>
Cyfanswm asedau				
Credydwyr – symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn	10	562		877
			103	(94)
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol			<u>322</u>	<u>175</u>
Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a chostau	11		(32)	-
Cyfanswm asedau llai Cyfanswm Rhwymedigaethau			<u>290</u>	<u>175</u>
Ecwiti'r trethdalwyr :				
Cronfa Gyffredinol	12		280	175
Cronfa Ailbrisio	13		10	-
			<u>290</u>	<u>175</u>

Mae'r Polisiâu a'r Nodiadau Cyfrifo ar dudalennau 56 i 63 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn

DATGANIAD LLIF ARIAN

AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2007

	Nodyn	2006-07		2005-06
		£000 oedd	£000 oedd	36 wythnos (Ailddatgan wyd) £000oedd
All-lif arian clir o weithgareddau gweithredu	(a)		(5,428)	(3,177)
Enillion o fuddsoddi a chynnal cyllid				
Llog derbyniadwy			11	-
Gwariant cyfalaf				
Prynu asedau diriaethol sefydlog			-	(269)
Cyllido				
Grant cymorth a dderbyniwyd gan yr Adran Drafnidiaeth		5,286		4,086
Adennill benthyciadau tocynnau tymor a drosglwyddwyd o'r SRA		-		8
			<u>5,286</u>	<u>4,094</u>
(Gostyngiad)/cynnydd mewn arian			<u>(131)</u>	<u>648</u>
Cysoni'r diffyg gweithredol â llifoedd arian gweithredol				
Gwariant net ar ôl eitemau eithriadol			(5,194)	(4,014)
Dibrisiad			62	23
Dirywiad parhaol mewn gwerth (Cynnydd) mewn dyledwyr			-	72
(Gostyngiad)/cynnydd mewn credydwyr			(13)	(135)
Cynnydd mewn darpariaeth			(315)	877
			<u>32</u>	-
All-lif arian clir o weithgareddau gweithredu			<u>(5,428)</u>	<u>(3,177)</u>
Cysoni llif arian net â symudiadau mewn cyllid net				
Cyllid ar 31 Mawrth 2006			648	-
(Gostyngiad)/cynnydd mewn arian yn ystod y flwyddyn			(131)	648
Cyllid ar 31 Mawrth 2007	9		<u>517</u>	<u>648</u>

Yr unig symudiad mewn dyled net yn ystod y flwyddyn yw'r gostyngiad mewn arian yn ystod y cyfnod.

Mae'r Polisiâu a'r Nodiadau Cyfrifo ar dudalennau 56 i 63 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn

NODIADAU AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

1. Datganiad polisiau cyfrifyddu

Ffocws ar Deithwyr yw enw gweithredol y Cyngor Teithwyr Rheilffyrdd a ffurfiwyd fel Corff Cyhoeddus Anadrannol ar 24 Gorffennaf 2005 dan y Ddeddf Rheilffyrdd 2005.

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Deddfau Cwmnïau, Llawlyfr Adroddiad Ariannol Trysorlys ei Mawrhydi (*Financial Reporting Manual* - FReM) a'r safonau adrodd ariannol a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu, ac y maent yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth ar 24 Mawrth 2006.

Disgrifir y polisiau cyfrifyddu penodol a fabwysiadwyd gan Ffocws ar Deithwyr isod. Cawsant eu defnyddio'n gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyriwyd oedd yn berthnasol i'r datganiadau ariannol.

1.1 Confensiynau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn drwy ddefnyddio'r confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gynnwys ailbriso asedau sefydlog ar eu gwerth i'r busnes trwy gyfeirio at eu costau cyfredol.

1.2 Newid polisi cyfrifyddu

O'r cyfnod adrodd 2006-07 ymlaen mae'r FReM yn gofyn bod cyrff cyhoeddus anadrannol yn rhoi cyfrif am grantiau a chymorth grant a dderbyniwyd i ddibenion refeniw fel cyllido oherwydd eu bod yn cael eu hystyried fel cyfraniadau gan barti rheoli sy'n arwain at fudd ariannol yn llog dros ben NDPBs. Mae hyn yn newid yn y polisi cyfrifo o'r cyfnod blaenorol pan oedd eitemau o'r fath yn cael eu cofnodi fel incwm. Dangosir effaith y newid hwn ar gyfrifon ardystiedig 2005-06 ac effaith y newid ar ganlyniadau'r flwyddyn gyfredol yn nodyn 21. Sylwch nad oes unrhyw effaith ar sefyllfa ased net Ffocws ar Deithwyr o ganlyniad i'r newid polisi hwn.

1.3 Incwm o weithgareddau gweithredu

Mae incwm o weithgareddau gweithredu yn cynrychioli incwm mewn perthynas â chydariannu gwariant ar brosiectau ymchwil teithwyr rheilffyrdd a rhoddir cyfrif amdano ar sail croniadau.

1.4 Asedau diriaethol sefydlog

Mae gwariant ar asedau diriaethol sefydlog yn cael ei gyfalafu. Y lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau diriaethol sefydlog yw £2,500. Ailbrisir asedau'n flynyddol fel a ddisgrifir yn nodyn 7.

1.5 Dibrisiad/amorteiddiad

Darperir dibrisiad/amorteiddiad ar yr holl asedau sefydlog, ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddileu cost neu brisiad pob ased, llai unrhyw amcangyfrif o werth gweddilliol, yn gyson gydol ei fywyd defnyddiol disgwylidig. Mae bywydau defnyddiol disgwylidig y prif gategorïau fel a ganlyn:

- Dodrefn a gosodiadau 5 mlynedd
- Offer cyfrifiadurol 3 blynedd
- Offer arall 4 blynedd
- Gwelliannau i'r lesddaliad hyd y brydles sy'n weddill

1.6 Grantiau'r llywodraeth

Ymdrinnir â Chymorth Grant a ddefnyddir i ariannu gweithgareddau a gwariant sy'n cefnogi amcanion statudol ac amcanion eraill Ffocws ar Deithwyr fel cyllido ac fe'u cyfrifir yn gredyd i'r Gronfa Gyffredinol pan fônt yn cael eu derbyn oherwydd eu bod yn cael eu hystyried yn gyfraniadau oddi wrth barti rheoli.

1.7 Costau pensiwn

Mae gweithwyr yn cael eu gwarchod gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (*Principal Civil Service Pension Scheme* - PCSPS) mewn perthynas â'u pensiynau. Cynllun budd-dal diffiniedig aml-gyflogwr heb ei ariannu yw'r PCSPS ond ni all Ffocws ar Deithwyr nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau gwaelodol. Cynhaliwyd prisiad actiwari llawn ar 31 Mawrth 2003. Mae'r manylion i'w gweld yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: *Civil Superannuation* (www.civilservice-pensions.gov.uk). Mae Ffocws ar Deithwyr yn gwneud taliadau i'r PCSPS mewn symiau sy'n cynnwys rhwymedigaethau'r Trysorlys mewn perthynas â budd-daliadau Pensiwn i bobl a gyflogwyd yn y gweithrediadau a ariannwyd, ac mewn perthynas â chostau gweinyddu sydd i'w priodoli i'r rhwymedigaethau a'u cyflawni.

1.8 Prydlesi gweithredol

Mae taliadau rhent sy'n ddyledus dan brydlesi gweithredol yn cael eu rhoi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant ar sail y rhenti gwirioneddol sy'n daladwy, sy'n adlewyrchu'r defnydd yn deg.

1.9 Cost cyfalaf

Mae tâl, yn adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddiodd Ffocws ar Deithwyr, yn cael ei gynnwys yn y cyfrif Incwm a Gwariant. Mae'r tâl yn cael ei gyfrifo ar gyfradd safonol y Llywodraeth o 3.5 y cant y flwyddyn ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2007 (2005-06 : 3.5 y cant), ar y gwerth cyfartalog i'w gario o bob ased llai pob rhwymedigaeth.

1.10 Treth

Nid yw Ffocws ar Deithwyr yn agored i dreth gorfforaeth na threthi eraill.

1.11 Balansau o fewn y Llywodraeth

Dadansoddwyd dyledwyr a chredydwyr o fewn y Llywodraeth yn unol â Llawlyfr Adroddiad Ariannol y Llywodraeth.

2. Incwm o weithgareddau gweithredu

	2006-07 £000 oedd	2005-06 36 wythnos (Ailddatgan wyd) £000oedd
Incwm mewn perthynas â phrosiectau ar y cyd	<u>82</u>	<u>-</u>

3. Dadansoddiad o gostau a niferoedd staff

	2006-07 £000 oedd	2005-06 36 wythnos £000oedd
Cyfanswm costau staff gan gynnwys y Prif Weithredwr oedd:		
Cyflogau a thaliadau	1,656	908
Costau Nawdd Cymdeithasol	152	83
Costau pensiwn (gweler isod)	333	174
	<hr/> 2,141	<hr/> 1,165
Staff asiantaeth	74	22
	<hr/> 2,215	<hr/> 1,187

Cynllun budd-dal diffiniedig aml-gyflogwr heb ei ariannu yw'r PCSPS ond ni all Ffocws ar Deithwyr nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau gwaelodol. Prisiwyd y cynllun fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2003 gan actiwari'r cynllun. Gallwch weld y manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: *Civil Superannuation* ar y wefan www.civilservice-pensions.gov.uk

Ar gyfer 2006-07, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £333,000 (2005-06 : £174,000) yn daladwy i'r PCSPS ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 17.1 i 25.5 y cant o dâl pensiwn (2005-06 : 16.2 i 24.6 y cant), seiliedig ar fandiau cyflogau. Bydd Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad o'r cynllun cyfan. O 2007-2008 ymlaen, bydd y bandiau cyflogau'n cael eu diwygio, er na fydd newid yn y cyfraddau. Mae'r cyfraddau cyfraniadau'n adlewyrchu budd-daliadau wrth iddynt Gronni, nid y costau fel yr eir iddynt mewn gwirionedd, ac y maent yn adlewyrchu profiad o'r cynllun yn y gorffennol.

	2006-07 Nifer	2005-06 Nifer
Nifer y staff ar gyfartaledd		
Staff a gyflogir yn barhaol	41	34
Erail	2	1
	<hr/> 43	<hr/> 35

Amlinellir manylion taliadau aelodau anweithredol y bwrdd ac aelodau'r bwrdd rheoli gweithredol yn yr adroddiad taliadau ar dudalen xx.

4. Costau gweinyddu a gwariant arall

	2006-07 £000 oedd	2005-06 36 wythnos £000oedd
Costau gweinyddu		
Taliadau'r bwrdd	256	153
Teithio a chynhaliadau, llogi ystafelloedd a recriwtio	277	389
Hyfforddi a datblygu	81	109
Rhent, trethi a gwasanaethau	143	195
Costau argraffu, postio a swyddfa	236	102
Cymorth a chynnal a chadw technoleg gwybodaeth	246	274
Costau telathrebu	76	60
Gwasanaethau a chymorth allanol	524	503
Ymchwil teithwyr	1,077	912

Dibrisiad	62	23
Ffi archwiliad allanol	24	35
Darpariaeth costau diswyddiad (nodyn 11)	59	-
	<u>3,061</u>	<u>2,755</u>

5. Llog sy'n dderbyniadwy

	2006-07	2005-06
	£000	£000oedd
	oedd	
Llog ar adnau banc	<u>11</u>	<u>-</u>

6. Cost dybiannol cyfalaf

	2006-07	2005-06
	£000oedd	£000oedd
Ar 3.5 y cant y flwyddyn ar gyfartaledd o'r holl asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau am y flwyddyn	<u>14</u>	<u>11</u>

7. Asedau diriaethol sefydlog

	Gwelliannau i'r Lesddaliad £000oedd	
Cost neu brisiad		
Ar 31 Mawrth 2006		269
Ailbrisiad		12
Ar 31 Mawrth 2007		<u>281</u>
Dibrisiad		
Ar 31 Mawrth 2006		-
Cost am y flwyddyn		62
Ar 31 Mawrth 2007		<u>62</u>
Llyfrwerth Net		
Ar 31 Mawrth 2007		<u>219</u>
Ar 31 Mawrth 2006		<u>269</u>

Ailbrisiwyd Gwelliannau i'r Lesddaliad trwy ddefnyddio Cost Adeiladu a Mynegeion Costau Chwarterol Gwaith Adeiladu'r Sector Cyhoeddus, Mawrth 2007.

8. Dyledwyr

	Ar 31	Ar 31 Mawrth
	Mawrth	2006
	2007	£000oedd
	£000oedd	
Dyledwyr masnachol	75	-
Dyledwyr eraill	2	11
Rhagdaliadau	71	124
	<u>148</u>	<u>135</u>

Ymhlith y dyledwyr eraill mae benthyciadau tocynnau

tymor i 2 staff (2005-06 :4) cyfanswm o £1,667 (2005-06 : £3,321).

Symiau yn y ffigurau uchod sy'n ddyledus o endidau eraill a gynhwyswyd yng Nghyfrifon y Llywodraeth Gyfan:

Balansau â chyrrff Llywodraeth Ganol eraill	50	-
Balansau ag Awdurdodau Lleol	5	18
Balansau ag Ymddiriedolaethau GIG	-	-
Balansau â chorfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu	51	80

9. Arian yn y banc ac mewn llaw

	Ar 31 Mawrth 2007 £000 oedd	Ar 31 Mawrth 2006 £000 oedd
Ar 31 Mawrth 2006	648	-
Arian net (all-lif)/ mewnlif	(131)	648
Ar 31 March 2007	<u>517</u>	<u>648</u>

Delir y balans banc mewn banc masnachol.

10. Credydwy

	Ar 31 Mawrth 2007 £000oedd	Ar 31 Mawrth 2006 £000oedd
Credydwyr masnachol	1	268
Nawdd Cymdeithasol a threthi eraill	58	56
Cyfraniadau Pensiwn sy'n daladwy	31	31
Mân Gredydwy	10	13
Croniadau	462	509
	<u>562</u>	<u>877</u>

Symiau yn y ffigurau uchod sy'n ddyledus i endidau eraill a gynhwyswyd yng Nghyfrifon y Llywodraeth Gyfan:

Balansau â chyrrff Llywodraeth Ganol eraill	126	133
Balansau ag awdurdodau lleol	4	-
Balansau ag Ymddiriedolaethau GIG	-	-
Balansau â chorfforaethau cyhoeddus a chronfeydd masnachu	40	5

11. Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a chostau

	2006-07 £000oedd	2005-06 £000oedd
Darpariaeth costau diswyddo		
Swm a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn	59	-
Swm a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(27)	-
Balans ar 31 Mawrth 2007	<u>32</u>	<u>-</u>

Disgwylir i'r ddarpariaeth gael ei defnyddio'n llawn yn ystod 2007-08

12. Cronfa Gyffredinol

	2006-07 £000oedd	2005-06 (Ailddatgan wyd) £000oedd
Ar 31 Mawrth 2006 (fel y'i hailddatganwyd)	175	-
Asedau sefydlog a drosglwyddwyd o'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol	-	95
Benthyciadau staff a drosglwyddwyd o'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol	-	8
Cymorth Grant a dderbyniwyd gan yr Adran Drafnidiaeth	5,286	4,086
Gwariant net ar gyfer y flwyddyn	(5,183)	(4,014)
Trosglwyddiad o'r Gronfa Ailbrisiad	2	-
Ar 31 Mawrth 2007	<u>280</u>	<u>175</u>

13. Cronfa Ailbrisiad

	2006-07 £000oedd	2005-06 £000oedd
Ar 31 Mawrth 2006	-	-
Ailbrisiad asedau sefydlog	12	-
Elfen gyflawnedig o ddibrisiad a drosglwyddwyd i'r Gronfa Gyffredinol	(2)	-
Ar 31 Mawrth 2007	<u>10</u>	<u>-</u>

14. Rhwymedigaethau dan brydlesau gweithredu

Mae lleiafswm y taliadau prydles y mae Ffocws ar Deithwyr wedi ymrwmo iddynt ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod dan brydlesau gweithredu na ellir eu diddymu fel a ganlyn:

	Eiddo £000oedd	Arall £000oedd	2006-07 Cyfanswm £000oedd	2005-06 Cyfanswm £000oedd
Ymhen blwyddyn	157	4	161	163
Rhwng dwy a phum mlynedd	373	-	373	544
Ar ôl pum mlynedd	-	-	-	-

Mae gan Ffocws ar Deithwyr drwydded i ddal swyddfeydd yn Llundain a gynhwyswyd fel ymrwymiad prydles oherwydd bod ganddo delerau ac amodau tebyg.

15. Ymrwymadau cyfalaf

Nid oedd unrhyw ymrwymadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2007 na 31 Mawrth 2006.

16. Trafodion bartion cysylltiedig

Corff cyhoeddus anadrannol gweithredol yw Ffocws ar Deithwyr a noddir gan y DfT ac a ystyrir yn barti cysylltiedig.

Er bod Ffocws ar Deithwyr yn gweithio â chwmnïau sy'n rhedeg trenau (*train operating companies* - TOC) i greu gwelliannau i deithwyr nid ystyrir bod y TOCs yn bartion cysylltiedig.

Nid oes unrhyw un o aelodau'r bwrdd na staff rheoli allweddol wedi ymgymryd â thrafodion sylweddol â Ffocws ar Deithwyr, ar wahân i'w taliadau, na'i bartion cysylltiedig yn ystod y

flwyddyn ac nid oes gan yr un ohonynt ddiddordeb ariannol yn y TOCs a fyddai'n dylanwadu ar eu gwaith gyda Ffocws ar Deithwyr.

17. Rhwymedigaethau amodol ac asedau amodol

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol nac asedau amodol i'w hadrodd ar 31 Mawrth 2007 na 31 Mawrth 2006.

18. Digwyddiadau wedi'r fantolen

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau wedi'r fantolen i'w hadrodd hyd at y dyddiad yr awdurdodwyd y cyfrifon i'w cyhoeddi.

19. Targedau ariannol

Ni sefydlwyd unrhyw dargedau ariannol gan y DfT yn ystod y flwyddyn.

20. Offerynnau ariannol

Nid oes gan Ffocws ar Deithwyr unrhyw fenthyciadau ac y mae'n dibynnu'n anad dim ar grantiau adrannol ar gyfer ei anghenion ariannol, ac oherwydd hynny nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Nid oes ganddo unrhyw adneuon sylweddol, ac y mae'r holl asedau a rhwymedigaethau perthnasol yn cael eu galw'n arian sterling ac oherwydd hynny nid yw'n agored i risg o ran cyfradd llog nac arian cyfred. Fodd bynnag, fel y caniateir dan y FRS 13, nid yw'r datgeliad hwn yn cynnwys dyledwyr a chredydwyr tymor byr a fyddai'n dod yn daladwy o ddyddiad y fantolen ac nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng llyfrwerth a gwerth teg asedau a rhwymedigaethau ar 31 Mawrth 2007 na 31 Mawrth 2006.

21. Cymhwysiad y Flwyddyn Flaenorol

Fel yr eglurwyd yn nodyn 1.2, o 2006-07 ymlaen mae'r Llawlyfr Adroddiad Ariannol yn gofyn bod cymorth grant yn cael ei drin fel cyllido sy'n newid yn y polisi cyfrifyddu o'i gymharu â chyfnodau blaenorol pan gofnodwyd cymorth grant fel incwm. Dangosir effaith y newid hwn ar gyfrifon ardystiedig 2005-06 ac effaith y newid ar ganlyniadau'r cyfnod presennol isod :

	Ar 31 Mawrth 2006 (fel y datganwyd eisoes) £000oedd	Effaith mabwysiadu'r polisi cyfrifyddu newydd £000oedd	Ar 31 Mawrth 2006 (Ailddatganwyd) £000oedd
Incwm ar gyfer 2005-06	3,912	(3,912)	-
Gwariant net ar gyfer 2005-06	(102)	(3,912)	(4,014)
Cronfa Gyffredinol	(94)	269	175
Cronfa Grant y Llywodraeth	269	(269)	-

	Ar 31 Mawrth 2007 (heb ddefnyddio'r polisi newydd) £000oedd	Effaith mabwysiadu'r polisi cyfrifyddu newydd £000oedd	Ar 31 Mawrth 2007 (defnyddio'r polisi newydd) £000oedd
Incwm ar gyfer 2006-07	5,379	(5,286)	93
Gwariant net argadwedig ar gyfer 2006-07	103	(5,286)	(5,183)
Cronfa Gyffredinol	71	209	280

Cronfa Grant y Llywodraeth

209

(209)

-

O ganlyniad i'r newid yn y polisi cyfrifyddu, ac oherwydd nad yw Ffocws ar Deithwyr yn derbyn Cymorth Grant Cyfalaf, cyfunwyd Cronfa Grant y Llywodraeth a'r Gronfa Incwm a Gwariant a'u hailenwi yn Gronfa Gyffredinol.

Passengerfocus



rholi teithwyr trên yn gyntaf